Arolygiaeth Prawf EM

# Adolygiad Thematig

# Gwaith y gwasanaethau troseddwyr ifanc dros gyfnod pandemig COVID-19

Adolygiad gan Arolygiaeth Prawf EM

Tachwedd 2020

**Cydnabyddiaeth**

Cafodd yr adolygiad hwn ei arwain gan Arolygydd EM Yvonne McGuckian gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a staff gweithredol, ymchwil, cyfathrebu a chorfforaethol. Y rheolwr sy'n gyfrifol am y rhaglen arolygu hon yw Helen Davies. Hoffem ddiolch i bawb a gymrodd ran mewn unrhyw ffordd yn yr adolygiad hwn. Heb eu cymorth a'u cydweithrediad ni fyddai'r adolygiad wedi bod yn bosib. Cofiwch drwy gydol yr adroddiad hwn fod enwau yn yr enghreifftiau ymarfer wedi eu newid i ddiogelu hunaniaeth yr unigolion.

© Hawlfraint y Goron 2020

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth yma (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi deunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan bwy bynnag sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter @hmiprobation

ISBN: 978-1-84099-968-6

## Cynnwys


Rhagair ... 4

Gwybodaeth cyd-destun a ffeithiau ... 5

Crynodeb gweithredol ... 7

Argymhellion / pwyntiau dysgu ... 10

Ein canfyddiadau ... 12

*Arweinyddiaeth* ... 12

*Staffio* ... 14

*Arolwg staff* ... 14

*Gwaith partneriaeth* ... 15

*Darparu gwasanaeth* ... 18

*Defnydd o dechnoleg a'r gagendor digidol* ... 26

*Casgliad a goblygiadau* ... 29

Cyfeiriadau dogfennol ... 29

Atodiad 1: Methodoleg ... 31

Atodiad 2: Geirfa ... 32

Atodiad 3: Arolwg staff – y prif negeseuon ... 36

## Rhagair

Dyluniwyd yr arolygiad hwn i adolygu a deall sut y mae'r timau troseddwyr ifanc (YOT) wedi ymateb i'r heriau o weithio dros gyfnod pandemig Covid-19. Wrth i ni gyd ddod i delerau â'r hyn sydd wedi digwydd a sut y mae bywyd wedi newid, mae plant a staff sy'n rhan o'r timau YOT hefyd yn ceisio gwneud synnwyr o'r cyfnod cwbl ddigymar hwn. Bydd yn gryn amser cyn i ni wybod beth yw'r effeithiau i gyd. Nod yr adolygiad hwn yw adrodd ar yr hyn a wyddom hyd yma.

Mae timau YOT yn darparu gwasanaeth cyhoeddus hollbwysig yn goruchwylio plant a ddedfrydwyd gan y llys neu a ddaeth i sylw'r heddlu oherwydd eu hymddygiad troseddol. Mae'r gwaith hwn, sy'n aml yn anweledig, yn hynod gymhleth ac yn gofyn bod gwahanol gyrff yn gweithio mewn partneriaeth i leihau ymddygiad troseddol a rheoli'r risg o niwed i eraill. Mae plant sy'n hysbys i'r timau YOT yn aml yn fregus, naill ai oherwydd eu risg iddynt eu hunain neu i ymddygiad gan eraill. Dangosodd yr arolygiad hwn fod materion lles, i lawer o blant, wedi dirywio dros y pandemig a bod ynysu oddi wrth ffrindiau a newidiadau i'r rhwydweithiau teuluol a chymorth arferol yn aml wedi gwaethygu eu trafferthion. Mae staff y timau YOT wedi ymateb yn dda i hyn. Gwelsom enghreifftiau o staff yn cymryd camau eithriadol i warchod plant a chawsom ein taro gan y ffordd y mae staff ar bob lefel wedi gweithio dros y cyfnod clo, er gwaethaf eu pryderon a'u hofnau eu hunain.

Mae'r timau YOT yn ein sampl wedi addasu'n sylweddol er mwyn gallu parhau i ddarparu cymorth a goruchwyliaeth i blant mewn ffordd ddiogel ac ymatebol. Gwelsom wasanaethau'n cael eu darparu mewn ffyrdd da ac effeithiol, a all barhau os bydd angen. Mae cydbwysedd effeithiol wedi'i daro rhwng ymateb i anghenion a risgiau plant, cyfrifoldeb i warchod y cyhoedd, a chadw staff yn ddiogel. Bu'n allweddol bod pob YOT wedi addasu i'w hangen lleol fel rhan o fframwaith eu hawdurdod lleol. Mae gweithio mewn partneriaeth wedi parhau a bu cryfder y partneriaethau hynny'n hollbwysig i barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol.

Rydyn ni wedi adnabod rhai pethau pwysig y bydd angen i arweinwyr a rheolwyr YOT a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid eu hystyried. Nid yw'r meysydd pryder yn newydd, ond maen nhw'n fwy arwyddocaol dros gyfyngiadau clo Covid-19. Maen nhw'n cynnwys problemau'n cysylltu â phlant dan glo, rhai ar ddedfryd ac ar remand, a chanfod ffyrdd gwell o reoli trais gan rai plant a phobl ifanc tuag at eu rhieni. Mae'r gagendor digidol a'r diffyg technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i staff a phlant hefyd yn bethau sydd angen sylw ar fyrder yn wyneb unrhyw gyfnodau clo cenedlaethol, rhanbarthol a lleol pellach.

Mae ymateb y plant i'r pandemig wedi disgyn i ddau grŵp yn bennaf. Mae rhai wedi cydymffurfio â'r cyfyngiadau gan ddefnyddio'r amser i feddwl am eu dyfodol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf wedi cael trafferth ymdopi ag effeithiau'r cyfyngiadau gan waethygu eu hanghenion cymhleth. I'r plant hyn mae'r pandemig yn drawma ychwanegol ar ben popeth arall.

Disgrifiodd un plentyn y feirws a'r cyfnod clo fel *"bendith a melltith"* sy'n crynhoi'n dwt yr hyn y mae staff, sefydliadau, plant a'u teuluoedd hefyd wedi'i brofi. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r bendithion hynny, gan gynnwys staff ymroddedig yn rhoi plant yn gyntaf i'w cadw'n ddiogel. Ond rhaid hefyd trafod a rhoi sylw i'r melltithion, er enghraifft yr ynysu oddi wrth ffrindiau, teulu a chydweithwyr, wrth i'r pandemig barhau. Wrth symud ymlaen, ni fydd dangosyddion perfformiad allweddol ar eu pen eu hunain yn egluro realiti'r gwaith hwn o dan y fath amgylchiadau. Mae'r arolygiad hwn yn gyfle i ni ddiolch i'r gweithwyr allweddol hynny sy'n gweithio ym maes troseddwyr ifanc am eu hymroddiad clir i'r plant a'r teuluoedd ac am eu gwasanaeth cyhoeddus.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf EM
Tachwedd 2020

## Gwybodaeth cyd-destun a ffeithiau

### Amserlen COVID-19 a'r gwasanaethau troseddwyr ifanc

- **20 Mawrth 2020** Pob ysgol yn cau i bawb heblaw i'r plant mwyaf bregus a phlant gweithwyr allweddol.
- **23 Mawrth 2020** Y Prif Weinidog Boris Johnson yn cyhoeddi cyfnod clo rhannol ar gyfer y Deyrnas Unedig i atal COVID-19 rhag lledu.
- **23 Mawrth 2020** Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) yn gofyn am gynlluniau parhad busnes gan bob YOT i'w dadansoddi; dechrau cynnal cyfarfodydd rhithiol pob pythefnos rhwng cynrychiolwyr o'r YJB, rheolwyr YOT, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (HMCTS), yr heddlu a rheolwyr y Gwasanaeth Carcharu Ieuenctid.
- **1 Mehefin 2020** Ysgolion cynradd yn ail-agor. Dim mwy na chwech o bobl o fwy nag un aelwyd yn cael dod at ei gilydd y tu allan yn unig.
- **13 Mehefin 2020** Aelwydydd gydag un oedolyn yn cael ymuno ag aelwyd arall o unrhyw faint (swigen gymorth).
- **15 Mehefin 2020** Disgyblion blwyddyn 10-12 ysgolion uwchradd yn Lloegr yn dychwelyd i'r ysgol. Rhai siopau'n cael ail-agor.
- **30 Mehefin 2020** Caerlŷr yw'r ardal leol gyntaf i wynebu cyfyngiadau ychwanegol ar ôl heic mewn achosion Covid-19.
- **20 Gorffennaf 2020** YJB yn cyhoeddi *Cynlluniau Adferiad COVID-19: arweiniad i dimau troseddwyr ifanc*.
- **Awst 2020** Annog y gweithlu i fynd yn ôl i weithio mewn swyddfeydd os ydynt yn ddiogel rhag Covid-19.
- **Medi 2020** Y rhan fwyaf o ysgolion yn ail-agor i ddisgyblion.
- **22 Medi 2020** Gofyn i'r gweithlu fynd yn ôl i weithio o gartref lle bo'n bosib; cyflwyno cyfyngiadau ychwanegol ar draws y DU.

### Gwybodaeth cyd-destun

- Mae **156** o wasanaethau troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr
- Roedd cynnydd cenedlaethol o **55%** mewn ôl-waith achosion byw'n aros i fynd i lys y goron a'r llys ieuenctid rhwng Ebrill a Mehefin 2019 ac Ebrill a Mehefin 2020. Roedd amrywiad sylweddol rhwng gwahanol ardaloedd llys, gyda chynnydd o 7% yng Ngogledd-Ddwyrain Lloegr a 97% yn ne Llundain[1]
- Roedd **563** o blant dan glo, i lawr o 811 yng Ngorffennaf 2019, a 38% ar remand (y sefyllfa ym mis Gorffennaf 2020)[2]
- Arolygwyd **70** o achosion[3] fel rhan o'r adolygiad thematig hwn

---

[1] Gwasanaeth Erlyn y Goron (2020). *Data rhagarweiniol ar ôl-waith llysoedd ieuenctid*.

[2] YJB (2020). Data Carcharu Ieuenctid: Gorffennaf 2020. [Ar-lein] Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/youth-custody-data.

[3] Fe wnaethom yn fwriadol ddewis achosion gyda risg o achosi niwed i eraill a lle'r oedd angen i'r timau YOT a phartneriaid eu rheoli. Mae proffil plant sy'n dod i sylw'r gwasanaethau troseddwyr ifanc yn aml yn cynnwys plant sydd angen eu diogelu.

- Mewn **47%** o'r achosion yn ein sampl, nid oedd gan blant fynediad boddhaol at dechnoleg i wneud gwaith ysgol ac i gyfathrebu'n rhithiol; dywedodd bob un o'r timau YOT a arolygwyd fod hyn yn broblem
- Yn achos **41%** o'r plant yn ein sampl, nid oeddent yn derbyn unrhyw fath o addysg, hyfforddiant na chyflogaeth dros y cyfnod clo

## Crynodeb gweithredol

### Rhagarweiniad

Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno amrediad o heriau cwbl ddigymar i bob rhan o gymdeithas. Mae lefel a natur yr effaith wedi amrywio gan ddibynnu ar ystod eang o ffactorau a bu’n rhaid i ni gyd addasu a newid ein hymddygiad a’r ffordd yr ydym yn byw a gweithio. Bu’n rhaid i wasanaethau cyhoeddus ddarparu gwasanaethau hanfodol gan ddatblygu ac addasu eu seilwaith er mwyn gweithredu’n ddiogel. Bu’n rhaid i’r gwasanaethau cyfiawnder troseddol, a llawer eisoes yn gweithredu rhaglenni newid sylweddol, hefyd wneud hyn. Mae gwasanaethau cyfiawnder troseddol, a ddarperir gan grŵp cymhleth a rhyng-ddibynnol o sefydliadau, yn effeithio ar lawer o bobl. Mae timau YOT, wrth natur, yn cynnwys partneriaethau aml-asiantaeth ac yn cyplysu mwyfwy o hyd â’r gwasanaethau plant. Er bod llai o blant yn dod i gysylltiad â thimau YOT bellach, mae anghenion y plant hyn yn fwy cymhleth.

Mae’r adroddiad hwn yn adolygiad thematig o sut y mae’r timau YOT wedi gweithio dros y pandemig o fewn y cyfyngiadau y bu’n rhaid eu dilyn i geisio atal y feirws rhag lledu. Mae’n canolbwyntio ar waith saith tîm YOT: Cumbria, Essex, Ynys Wyth, Sir Fynwy a Thorfaen, Newcastle, Southwark a West Mercia. Mae’r timau o wahanol faint ac yn cynrychioli ardaloedd gwledig a threfol. Fe wnaethom hefyd ddewis gwasanaethau lle teimlwyd fod ymarfer penodol y gallai eraill ddysgu ohono.

Mae ein hadolygiad ansoddol yn seiliedig ar ganfyddiadau sampl bychan (70) o achosion cyn ac ôl-gyfnod clo, cyfweliadau ag ystod o staff a chyfarfodydd o bell â defnyddwyr gwasanaeth, rhieni a gofalwyr, ym Mehefin a Gorffennaf 2020. Cefnogwyd ein gwaith hefyd gan arolwg o 220 o staff o’r saith tîm YOT. Nod yr adroddiad hwn yw cofnodi’r gwaith ar bwynt neilltuol mewn amser a rhannu ymarfer a dysgu effeithiol. Rhoddir mwy o fanylion am ein dull yn Atodiad 2: Methodoleg.

### Arweinyddiaeth

Mae arweinwyr a rheolwyr, ar lefel leol a phartneriaeth, wedi ymateb yn gyflym i anghenion plant a theuluoedd. Cafodd dulliau o weithio a darparu gwasanaeth eu hadolygu gan roi blaenoriaeth i blant oedd â’r anghenion mwyaf, ac i ddiogelwch y gweithlu. Rhannwyd y cynllunio â thimau staff, gan ei adolygu a’i addasu wrth i wersi gael eu dysgu ac wrth i’r pandemig fynd yn ei flaen. Arhosodd blant a theuluoedd wrth galon y gwaith; gwelsom enghreifftiau o arloesi, gofal ac ymrwymiad i gefnogi plant. Roedd gan lawer ohonynt eisoes drafferthion sylweddol a chawsant gefnogaeth i ymdopi â’r trawma ychwanegol a ddaeth gyda’r coronafeirws a’r cyfnod clo. Drwy gysoni’r timau YOT ag awdurdodau lleol, a thrwy gynllunio gyda, ac ochr yn ochr â phartneriaid, bu’n bosib ymateb yn hyblyg i anghenion lleol.

Cafodd awdurdodau lleol a phartneriaid YOT eu boddi â chanllawiau a dogfennau, yr oedd angen iddynt eu darllen, deall, croesgyfeirio a’u gweithredu. Llesteiriwyd y broses gan ddiffyg fformat cyffredin a fyddai wedi’i gwneud yn haws tynnu’r wybodaeth bwysicaf allan ohonynt.

Cafodd peth o’r gwaith, fel paneli gorchmynion cyfeirio a dedfrydau allan-o-lys, ei atal i ddechrau. Fodd bynnag gydag amser roedd pob YOT yn penderfynu pa weithgareddau y gallent eu hailgyflwyno’n ddiogel. Dechreuodd y paneli dedfrydau allan-o-lys ail-ymgynnull yn gyflym, gyda gwaith i gynorthwyo ymatal rhag troseddu hefyd yn cael ei ddarparu. Wrth i’r llysoedd gau, aeth nifer yr achosion gorchymyn llys newydd i lawr. O’r herwydd roedd rheolwyr achos yn gallu canolbwyntio ar blant gyda’r flaenoriaeth fwyaf. Yn y misoedd nesaf, bydd yr ôl-waith o achosion sy’n aros i fynd i’r llys yn dechrau cael ei glirio a bydd hyn yn cael effaith fawr ar lwyth gwaith rhai o’r timau YOT. Mae angen i fyrddau rheoli ddeall yr effaith fydd hyn yn ei gael ar eu gwasanaethau.

### Staffio

Ar y cyfan arhosodd y lefelau staffio’r un fath, ac er y cynlluniwyd ar ei gyfer, ni welodd y timau YOT y lefelau uchel o salwch ac adleoli staff yr oeddent wedi’i ddisgwyl. Symudodd pob gwasanaeth i weithio o gartref ‘o bell’, ac er y cafwyd rhai trafferthion, mae staff wedi gallu addasu i’r ffyrdd

newydd o weithio. Mae rhai agweddau ar y gwaith wedi cynnig eu hunain yn dda i weithio o bell; er enghraifft mae presenoldeb gwell mewn cyfarfodydd aml-asiantaeth. Fodd bynnag nid oedd yn bosib addasu'r holl waith mor hawdd. Roedd angen llawer mwy o oruchwyliaeth a chymorth gan reolwyr rheng flaen, fel bo'r grŵp staff hwn dan gryn bwysau.

Mae Technoleg Gwybodaeth addas a chydnaws wedi bod yn hollbwysig dros y cyfnod hwn. Lle'r oedd ar gael ac yn gweithio'n dda, dysgodd y staff yn gyflym sut i weithio o bell. Fodd bynnag, mae'r arolygiad hwn wedi canfod 'gagendor digidol' rhwng pobl sydd â mynediad at y dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ddiweddaraf, a'r rhai sydd heb. Mae hyn yn wir am staff YOT a'r plant a'r teuluoedd a gefnogir ganddynt. Mae angen rhoi sylw ar frys i'r anghydraddoldeb hwn.

Roedd staff yn ganmoladwy iawn o'r cymorth a gawsant gan uwch-arweinwyr, rheolwyr a chydweithwyr. Cawsant eu hannog i arloesi ac i gadw mewn cysylltiad â'i gilydd i leihau teimlo'n ynysig. Mae rhai ardaloedd wedi gallu cynnig goruchwyliaeth glinigol i helpu staff i ddelio â thrawma empathetig a'r anawsterau emosiynol o reoli trawma plant o'u cartrefi, yn aml iawn wrth ofalu am eu plant eu hunain hefyd. Mae'r ffordd y mae staff yn 'hidlo' a rheoli emosiynau anodd wrth wneud y gwaith wedi newid, ac ni ddylid diystyru'r effaith yma ar unigolion.

**Gwaith partneriaeth**

Mae gwaith partneriaeth wastad wedi bod yn rhan sylfaenol o waith y timau YOT sy'n aml yn cynnig enghreifftiau o waith partneriaeth aeddfed sydd wedi gwreiddio. Mae'r ffordd y darperir gwasanaethau gan bartneriaid wedi newid dros y pandemig, ond ar y cyfan roedd plant a theuluoedd yn ein sampl wedi gallu derbyn gwasanaethau hanfodol. Gwelsom staff YOT a gweithwyr arbenigol yn addasu i sicrhau bod y rhai gyda'r angen mwyaf yn parhau i dderbyn gwasanaethau fel cymorth iechyd meddwl. Mae hyn yn unol â rhoi mwy o bwyslais ar gadw plant yn ddiogel dros y pandemig.

Dengys ein rhaglenni arolygu rheolaidd fod plant sy'n hysbys i dimau YOT yn aml yn cael trafferth mynychu ac aros mewn addysg. Mae hyn wedi mynd yn waeth dros y pandemig, yn rhannol oherwydd diffyg TG addas. Mae staff YOT wedi ceisio annog plant i gyfranogi mewn addysg, a lle'r oedd gan blant gymhelliad i gwblhau gwaith ysgol, wedi eu cynorthwyo. Wrth i'r ysgolion ail-agor, bydd angen ystyried yn ofalus sut i gael y plant hyn i ailafael mewn addysg a dysgu.

Mae angen adolygu'r gwaith partneriaeth rhwng timau YOT wrth drosglwyddo neu gymryd gofal o achosion ar ran ardal arall. I blant lle'r oedd cyswllt gyda'r tîm YOT lleol eisoes yn digwydd o bell, gwelsom rai achosion lle nad oedd unrhyw fantais i'r plentyn o gael eu trosglwyddo i weithiwr newydd.

Mae'r partneriaethau gyda'r heddlu wedi bod yn gryf, yn enwedig lle mae pryderon diogelu plant. Mae ymweliadau ar-y-cyd i wirio lles a gwaith ar-y-cyd â gweithwyr cymdeithasol wedi eu cydlynu'n dda. Mae prosesau rheoli risg aml-asiantaeth, gan gynnwys cyfarfodydd risg a bregusrwydd, Trefniadau Gwarchod y Cyhoedd Amlasiantaethol (MAPPA) a chyfarfodydd Ecsbloetio Plant a Phlant ar Goll (MACE), wedi parhau. Mae'r timau YOT felly wedi gallu adnabod risgiau newydd.

Fodd bynnag, roedden ni'n poeni am brofiad rhieni lle'r oedd plant a phobl ifanc yn dreisgar tuag atynt. Mae hwn yn faes sydd angen ffocws cryfach a chynllunio mwy manwl er mwyn amddiffyn y rhieni. Mae natur y cam-drin hwn, ac oed y camdrinwyr, yn golygu nad yw'r trefniadau ar gyfer oedolion a fyddai fel arfer yn rhan o gynllun diogelu dioddefwr a chynadleddau asesu risg aml-asiantaeth (MARAC) yn berthnasol i gyd. Cynghorwyd dioddefwyr i ffonio'r heddlu os oeddent dan fygythiad neu os oedd eu plant yn ymosod arnynt, ond mae rhieni'n wynebu trafferthion penodol lle mae'r camdriniwr yn blentyn iddynt. Gall gwrthdaro hefyd godi pan fydd y gweithiwr YOT yn ceisio lleihau ymddygiad heriol y plentyn a chynorthwyo'r dioddefwr ar yr un pryd. Credwn fod angen dull newydd o ddelio â'r mater hwn.

Mae cyswllt a gwaith ar-y-cyd â sefydliadau carchar wedi bod yn anodd. Effeithiwyd ar hyn yn sylweddol gan ddiffyg systemau TG yn y carchar er mwyn gallu cyfathrebu â thimau YOT yn y gymuned ac oherwydd bod angen atal ymweliadau fel nad oedd y feirws yn lledu. Bu'n andwyol i

gynllunio adsefydlu. Mae'n dda gweld rhai o'r datblygiadau diweddaraf i wella cyswllt a chyfathrebu ond mae hyn yn parhau i fod yn drafferth ymarferol sydd angen ei datrys.

### Darparu gwasanaeth

Wrth reswm, mae'r ffordd y darperir gwasanaethau wedi newid. Drwy gydol y cyfnod hwn, mae partneriaethau YOT wedi ceisio dysgu gwersi a chofnodi'r agweddau ar ddarparu sydd wedi gwella ac y dylid eu cadw. Roedd y rhain yn cynnwys manteision cysylltu â phlant dros y ffôn wrth iddynt ddod i adnabod staff, addasu rhaglenni i'w darparu gan bartneriaid neu 'o bell', a rhieni'n cyfrannu mwy at ddarparu gwaith i roi sylw i anghenion cysylltiedig â throseddu.

Fodd bynnag, mae rhai elfennau o ddarparu ac o'r gwaith i amddiffyn plant a dioddefwyr wedi bod yn llawer anoddach, gan gynnwys gwneud asesiadau heb gyfarfod y plentyn, cael cyswllt â phlant sydd dan glo, a chamau tor-gorchymyn i gynorthwyo cydymffurfio. Cymrodd amser i rai risgiau i eraill ddod yn amlwg, ac roedd angen ystyried mwy ar y risg i ddioddefwyr cam-drin domestig unwaith y dechreuodd y cyfnod clo. Roedd un YOT wedi datblygu asesiad risg penodol i Covid-19. Profodd hwn i fod yn offeryn defnyddiol iawn i drafod y problemau gyda phlant a theuluoedd, ac i adnabod trefniadau cyswllt a risgiau unigol. Roedd timau YOT eraill wedi addasu eu hadnoddau asesu i ystyried Covid-19. Roedd adolygu sefyllfaoedd plant yn weithredol a phrydlon. Fodd bynnag, nid oedd y cynlluniau ysgrifenedig yn llwyr adlewyrchu'r gwaith a wnaed i helpu i amddiffyn a chynorthwyo'r plentyn.

Roedd symud at weithio o bell yn llawer haws lle'r oedd perthynas eisoes gyda'r plentyn. Roedd asesiadau ac ymyriadau i rai plant a dderbyniodd ddedfryd allan-o-lys wedi eu darparu'n gyfangwbl o bell. Nid oedd staff a rheolwyr yn siŵr am hyn oherwydd nid yw'n ymarfer arferol. Roedd staff yn greadigol yn datblygu sesiynau ar-lein defnyddiol gyda phlant, i hybu eu dysgu a'u lles. Wrth i gyfyngiadau'r llywodraeth lacio, daeth cyswllt uniongyrchol (fel arfer yn yr awyr agored) yn fwy cyson. Roedd y plant a'r staff yn hoffi'r dull hwn, a ddisgrifiwyd fel 'cerdded a siarad' gan fwriadu ei gadw fel rhan o'r ymarfer. Roedd plant yn hoffi cyswllt dros y ffôn gan ddweud ei fod yn eu helpu i ddod i adnabod y staff a chreu perthynas ond eu bod yna eisiau cyfarfod y gweithiwr yn uniongyrchol.

Roedd rhieni'n gwerthfawrogi'r cymorth ymarferol a gawsant gan y timau YOT, oedd yn dosbarthu parseli bwyd, yn trefnu gweithgareddau i'r plant ac yn rhoi cyngor ar reoli ymddygiad a phryderon. Roedd rhai uwch-reolwyr yn ei weld fel cyfle i wella'r berthynas gyda'r teuluoedd. Roedd rhieni hefyd yn croesawu'r cyfle i chwarae mwy o ran mewn darparu ymyriadau a gwaith YOT. Roeddent yn deall eu plentyn yn well o ganlyniad meddent.

Roedd yr ymyriadau'n amrywio rhwng gwahanol dimau YOT, ond i gyd yn darparu rhywbeth. Roedd dull darparu'r gwaith wedi newid. Roedd partneriaid a rhieni'n darparu peth o'r gwaith, a gwaith arall yn cael ei addasu fel y gellid ei wneud drwy Zoom a Microsoft Teams.

Roedd y darparu'n canolbwyntio ar y plant gyda'r anghenion mwyaf. Roedd staff yn canolbwyntio ar ddatblygu a chynnal perthynas. Treuliwyd yr amser yn dda oherwydd perthynas yw un o gonglfeini gwaith YOT. Mae gwaith y partneriaethau YOT dros y pandemig yn enghraifft dda o wasanaeth cyhoeddus hanfodol yn gweithio gydag ymroddiad ac ymrwymiad i oresgyn rhwystrau, ac mae i'w ganmol.

## Argymhellion / pwyntiau dysgu

**Dylai HMPPS:**

1. Datblygu systemau cyfathrebu effeithiol rhwng lleoliadau carchar, llysoedd ac asiantaethau partner y timau YOT i sicrhau nad yw plant dan anfantais, cynnal gwrandawiadau llys amserol ac ateb anghenion adsefydlu.

**Dylai'r YJB:**

2. Cynorthwyo datblygu dull penodol o reoli trais gan blant a phobl ifanc yn erbyn rhieni, sy'n amddiffyn y dioddefwr dros gyfnodau clo
3. Cynorthwyo'r timau YOT i asesu ac ymateb i'r gagendor digidol sydd gan blant a theuluoedd fel bod gan blant fynediad diogel a dibynadwy at TG i barhau gyda'u haddysg a chadw mewn cysylltiad â staff a gweithwyr proffesiynol
4. Adolygu'r prosesau trosglwyddo a chymryd gofal o achosion rhwng timau YOT o ystyried y darparu rhithiol ac o bell, gan roi lles gorau'r plentyn wrth galon y penderfyniadau.

**Dylai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu:**

5. Gweithio gyda phartneriaid i ddeall lefel y trais gan blant yn erbyn rhieni yn eu hardaloedd a sicrhau bod cymorth ar gael i gynorthwyo ac amddiffyn rhieni sy'n dioddef.

**Dylai byrddau rheoli YOT:**

6. Adnabod yr ôl-waith achosion sy'n cael eu prosesu drwy'r llysoedd a sicrhau bod capasiti gweithlu digonol i ddelio â'r cynnydd mewn llwythi achosion
7. Gweithio gyda phartneriaid i gynnwys plant a ddiffiniwyd fel rhai bregus iawn gan dimau YOT o fewn y diffiniad lleol o blant bregus, er mwyn rhoi mynediad blaenoriaeth at addysg neu wasanaethau eraill iddynt
8. Ystyried sut y gellir ailgyflwyno'r grŵp plant hwn i'r ysgol, addysg a chyflogaeth a sut y dylid rhoi sylw i unrhyw fwlch mewn cyflawni.

**Dylai timau YOT:**

9. Asesu'n rheolaidd pa fynediad sydd gan blant at TG a dulliau cyfathrebu o bell, fel rhan arferol o asesiadau.

**Pwyntiau dysgu**

- Roedd plant yn falch o gael cyswllt o bell â gweithwyr YOT ar ddechrau'r ymgysylltu. Teimlent ei fod yn gyfle i ddod i adnabod ac ymddiried yn eu gweithwyr. Wrth i amser fynd heibio, roedd y plant eisiau ac yn falch o gael cyswllt uniongyrchol.
- Mae'r dull 'cerdded a siarad' o gwrdd â phlant yn y gymuned wedi bod yn llwyddiant a dylid ei barhau lle bo'n bosib.
- Dylid parhau i gynnal cyfarfodydd fideo-gynadledda rhithiol rhwng gweithwyr proffesiynol o ystyried bod y presenoldeb yn well a'u bod yn arbed amser i bobl

- Mae angen mynediad diogel ac addas at TG i blant er mwyn gallu parhau â'u haddysg a chadw mewn cysylltiad â gweithwyr proffesiynol
- Mae gan brofion COVID-19 fanteision mewn rhai sefyllfaoedd, i roi sicrwydd i blant a helpu gofalwyr i reoli ymddygiad a phryderon plant, er enghraifft os rhoddwyd plentyn mewn lleoliad preswyl y tu allan i'w hardal leol
- Roedd awdurdodau lleol yn boddi dan yr holl wahanol ganllawiau a gawsant, gan gynnwys diweddariadau parhaus. Roedd angen adnoddau helaeth i ddeall, hidlo a dosbarthu'r pwyntiau perthnasol i weithwyr rheng flaen. Byddai awdurdodau lleol yn croesawu canllawiau mewn fformat safonol.

## Ein canfyddiadau

### Arweinyddiaeth

Roedd chwech o'r saith YOT a arolygwyd yn cael eu llywodraethu gan adrannau gwasanaethau plant yr awdurdod lleol. Roedd un wedi'i leoli yn swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

**Cynlluniau parhad busnes**

Ar ddechrau'r cyfnod clo ym mis Mawrth, gofynnodd yr YJB i bob YOT gynhyrchu cynllun wrth gefn yn disgrifio sut yr oeddent yn gweithio gyda phlant mewn gorsafoedd heddlu ac yn y gymuned, a sut yr oeddent yn aros mewn cysylltiad â phlant dan glo. Cafodd y gofyniad i fyrddau gyflwyno cynlluniau cyfiawnder ieuenctid blynyddol hefyd ei hepgor ar gyfer 2020/2021. Defnyddiwyd y dadansoddiad o'r cynlluniau wrth gefn i oleuo cyflwyniad gweinidogol gan yr YJB. Nid yw'r canlyniadau wedi eu rhannu â'r sector. Casglwyd enghreifftiau ymarfer gan y sector o weithio dros y pandemig, a rannwyd ar yr Hŷb Adnoddau Cyfiawnder Ieuenctid, 'COVID-19: Resources for youth justice section', a reolir gan yr YJB. Oherwydd y cysylltiadau rhwng Penaethiaid Ardal yr YJB a rheolwyr y timau YOT, gallodd yr YJB gasglu gwybodaeth a rhoi cymorth a bu'n gyfrwng i ddod â phartneriaid allweddol at ei gilydd i gynnig atebion i faterion penodol yn ymwneud â'r pandemig.

Roedd y cynllunio parhad busnes cychwynnol yn effeithiol yn yr ardaloedd a arolygwyd ac wedi elwa o fod wedi eu dylunio'n lleol a'u cydlynu â'r trefniadau gorchymyn a chynllunio awdurdod lleol. Drwy gynllunio â phartneriaid, roedd y modelau'n rhoi blaenoriaeth i'r plant mwyaf bregus ac a gyflwynai'r risg fwyaf o achosi niwed i eraill. Roedd y prosesau a'r paneli rheoli risg wedi parhau gan helpu i flaenoriaethu'r achosion oedd angen sylw'n syth. Wrth i'r sefyllfa ddatblygu roedd arweinwyr a rheolwyr yn sydyn iawn i ymateb i newidiadau a heriau newydd. Bydd gallu ymateb yn hyblyg yn parhau i fod yn bwysig yn wyneb cyfnodau clo lleol, rhanbarthol a chenedlaethol pellach.

Yng Nghymru, bu'r cyfarfodydd pythefnosol rhwng YJB Cymru a Rheolwyr YOT Cymru (YMC) yn gyfrwng i gael trafodaethau 'amser real' am weithrediad y system a phryderon newydd ac yn gyfle i rannu barn am ymarfer. Mae'r cysylltiadau rhwng y cyfarfod hwn a Phartneriaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan wedi hwyluso rhannu gwybodaeth a data. Roedd trefniadau tebyg yn eu lle yn Lloegr.

Roedd y gymuned YOT drwy Gymru wedi cyd-gynhyrchu eu cynlluniau parhad busnes. Roedd hyn yn cynnwys fframwaith wedi'i deilwrio i anghenion lleol. Er enghraifft yn Sir Fynwy a Thorfaen, datblygwyd cynllun gyda phartneriaid ar draws Gwent. Wrth i'r sefyllfa newid, roedd y cynlluniau'n cael eu hadolygu a'u haddasu. Er enghraifft, roedd y canllawiau ar ddarparu oedolion priodol yn 'hidlo lawr' i'r gwasanaethau plant yn rhy araf a heb ateb yr angen. Roeddent yn gweithio'n agos â'r heddlu i ddarparu oedolion priodol. Roedd ganddynt ffotograffau o ddalfa'r heddlu gan gerdded drwy'r lle'n defnyddio fideos yr heddlu i ddangos sut y byddai'r plant yn cael eu diogelu.

**Enghraifft o ymarfer da**

Roedd YOT Essex wedi paratoi cynllun parhad busnes wythnosau lawer cyn y clo cenedlaethol, ar ôl olrhain hynt y feirws yn Ewrop a rhagweld y mesurau a fyddai'n debygol o gael eu cyflwyno yn y DU. Roedd y cynllun parhad busnes yn fyr ac i'r pwynt a chafodd ei rannu â'r tîm staff ac asiantaethau partner. Oherwydd ei fod wedi'i baratoi cyn y cyfnod clo cenedlaethol, cynhaliodd y gwasanaeth dreial gyda'r staff i gyd yn gweithio o bell a thrwy ddarparu gwasanaethau i'r plant mewn ffordd wahanol. Roedd y dysgu o'r profiad yn werthfawr iawn gan gynnwys stagro'r amseroedd pryd y byddai staff yn mewngofnodi ar y systemau TG i osgoi gorlwytho'r system. Roedd gan staff a rheolwyr wedyn hyder y byddai gweithio o bell yn gweithio. Roedd y treial hefyd yn gyfle iddynt weithio gyda phlant a theuluoedd i baratoi am y cyfnod clo a sefydlu dulliau gwahanol o gyfathrebu a gweithio.

### Arweinyddiaeth leol

Er bod rhai gwasanaethau wedi amrywio, roedd y timau YOT wedi symud yn sydyn iawn at 'fusnes fel arfer' neu 'ar agor am fusnes ond gan ddarparu gwasanaethau'n wahanol'. Daeth anghenion plant a theuluoedd yn llawer mwy taer wrth i amser fynd heibio. At ei gilydd mae'r timau YOT wedi ymateb yn dda i heriau lleol gan godi materion ehangach yn briodol. Hysbyswyd yr YJB fod plant mewn perygl o ddioddef mwy o drais domestig a mwy o ecsbloetio a cham-drin plant dros gyfnodau clo. Mae timau YOT Llundain wedi tynnu sylw bod plant o grwpiau ethnig du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig efallai'n dioddef yn anghymesur oherwydd y nifer uwch o farwolaethau a'u bod yn fwy tebygol o fod yn sâl yn hirdymor. Gall teuluoedd BAME gael eu heffeithio am gyfnodau hirach os yw aelod o'r teulu'n sâl oherwydd bod eu salwch yn fwy difrifol a gall gymryd mwy o amser iddynt wella o effeithiau Covid-19. Mae staff a rheolwyr yn Southwark yn poeni'n arbennig am effaith hyn ar iechyd meddwl plant.

Mae gan dimau YOT sy'n gyfrifol am nifer o ardaloedd awdurdod lleol drafferthion neilltuol. Mae YOT West Mercia, sy'n gyfrifol am bedair ardal awdurdod lleol, wedi gweithio'n galed i geisio cysoni'r gwasanaeth. Fodd bynnag, bu'n rhaid i'r YOT ddiffinio un ffordd gyson o weithio, sy'n gweithio'n well i rai awdurdodau lleol nag i eraill. Mae pob awdurdod lleol wedi cynnig gwahanol wasanaethau a chymorth dros y cyfnodau clo, sy'n debygol o barhau wrth i gyfyngiadau lleol gael eu cyflwyno. Rhaid i staff felly geisio addasu i'r gwasanaethau hyn fesul achos yn y pedair ardal.

Ar y cyfan, mae rheolwyr YOT wedi llwyddo i gadw cydbwysedd rhwng ymateb i risg ac anghenion plant a theuluoedd, a chadw staff yn ddiogel. Cymrodd hyn gryn ymdrech gan y timau YOT a'r gwasanaethau partneriaeth, a dylid eu canmol. Mae arweinwyr wedi bod ac yn parhau i gyfathrebu'n dda â staff. Sefydlodd y rhan fwyaf o ardaloedd sesiynau briffio dyddiol drwy ddefnyddio'r fewnrwyd ac e-bost. Mae staff yn gwerthfawrogi hyn, yn enwedig pan oedd pethau'n newid bob munud.

Mae byrddau rheoli YOT wedi parhau i gwrdd drwy gyfarfodydd ffurfiol ac ar sail *ad-hoc* pan oedd angen. Yn ôl rheolwyr YOT, mae aelodau a chadeiryddion bwrdd wedi bod yn gefnogol. Yn eu tro mae'r cadeiryddion bwrdd wedi canmol rheolwyr am barhau i ddarparu ac am arloesi.

### Canllawiau a dogfennau

Bu'n rhaid i uwch-arweinwyr mewn awdurdodau lleol ddelio â swmp enfawr o ganllawiau ac roedd angen adnoddau i ymdopi. Bu'n rhaid i Cumbria a Hampshire ddyrannu dau aelod o staff llawn amser dim ond i reoli'r canllawiau. Yn ôl uwch-arweinwyr, roedd y gwahanol fformatau a ddefnyddiwyd ar draws adrannau'r llywodraeth, a'r diweddariadau rheolaidd, wedi gwneud y gwaith yn anoddach. Dywedodd un Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant wrthym fod ganddynt dros 200 o wahanol ddogfennau canllawiau i'w darllen, deall ac yna i'w dosbarthu i'r gweithlu. Byddai un fformat unffurf ar gyfer canllawiau, lle'r oedd y diweddariadau'n amlwg, yn cael ei groesawu.

## Staffio

Mae staff ar bob lefel wedi wynebu heriau'r pandemig yn effeithiol iawn gan weithio ag ymroddiad ac ymrwymiad i gadw rhai plant bregus iawn mor ddiogel â phosib. I'r plant sy'n cyflwyno'r risg fwyaf o niwed i eraill, mae cyswllt uniongyrchol ond yn cadw pellter cymdeithasol, ar y cyfan, wedi'i gynnal ond mewn rhai achosion wedi cynyddu.

Er bod llwythi gwaith rheolwyr achos wedi bod yn weddol rwydd, mae rheolwyr y timau wedi bod dan bwysau. Er bod llai o amser teithio, mae goruchwyliaeth rheolwyr o staff ac achosion wedi cymryd llawer mwy o amser. Mae hyn yn rhannol oherwydd colli cyfle i drafod achosion y tu allan i'r prosesau goruchwylio ac adolygu ffurfiol. Dywedodd llawer o reolwyr wrthym ei fod yn cymryd llawer mwy o amser i oruchwylio o bell, cadw mewn cysylltiad ag asiantaethau partner, a rhoi cymorth ymarferol ac emosiynol i'w staff. Bydd angen i reolwyr YOT ystyried llwythi gwaith y grŵp staff hwn.

Dywedodd un grŵp o reolwyr:

*"Roedd cynnydd aruthrol mewn e-byst yn y 5-6 wythnos gyntaf. Roedd mor anodd cadw ar ben hyn. Erbyn hyn rydyn ni'n dal i fyny ar bopeth y dylen ni fod wedi bod yn ei wneud. Yn teimlo na chawsom amser i fyfyrio – mae fel melin draed. Mae angen yr amser hwn arnom".*

Meddai rheolwr arall:

*"Wnes i ddim rhagweld yr holl waith. Mae wedi bod yn ddiddiwedd. Nid yw fy rhestr o bethau i'w gwneud wedi newid".*

Mae timau staff wedi gweithio'n hyblyg i ddirprwyo dros staff a fu'n cysgodi, gan addasu eu dulliau o weithio i ddarparu gwasanaethau'n unol â'u model. Fodd bynnag, mae heriau newydd o'n blaen wrth i'r effeithiau andwyol ar blant a theuluoedd ddod yn gliriach. Roedd uwch-reolwyr a holwyd gennym yn rhagweld y bydd angen cynorthwyo plant wrth ddychwelyd i'r ysgol, gyda heic posib yn y galw am wasanaethau ym mis Hydref 2020.

Dywedodd rai staff eu bod yn poeni am ddychwelyd i weithio mewn swyddfa. Dywedodd staff a dreuliodd amser yn gweithio o'r swyddfa fod pellhau cymdeithasol a chyfleusterau golchi dwylo wedi eu cyflwyno. Roedd pobl yn poeni am orfod defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus eto.

Roedd rheolwyr y gwasanaethau troseddwyr ifanc wedi gweithio'n dda â phartneriaid i ddatblygu cynlluniau i baratoi am lefelau uchel o absenoldeb ac adleoli staff. Ym mhob gwasanaeth, nid oedd absenoldeb staff mor ddrwg â'r disgwyl. Mewn tri gwasanaeth, roedd absenoldeb salwch i lawr. Yn y rhan fwyaf o'r timau a arolygwyd, roedd staff partneriaethau arbenigol wedi eu cadw, gan gynnwys swyddogion prawf, gweithwyr iechyd a'r heddlu. Roeddent hefyd wedi symud at weithio o bell a weithiodd yn dda gyda staff yn dweud bod y dulliau newydd o gyfathrebu, ar y cyfan, wedi bod yn effeithiol.

## Arolwg staff

Cafodd arolwg staff ei wneud gyda 220 yn ymateb; cynhaliwyd hefyd gyfarfodydd grwpiau ffocws a holwyd staff yn unigol. Dywedodd y rhan fwyaf o staff fod eu rheolwyr a'u timau wedi bod yn gefnogol. Cawsom fod arweinwyr a rheolwyr wedi mynd y filltir arall i gadw mewn cysylltiad â phobl gan gydnabod effaith emosiynol gweithio o bell. Roedd un prif weithredwr awdurdod lleol wedi siarad gyda staff am *"fod gartref yn ceisio gweithio"* yn hytrach na'n gweithio o gartref. Roedd y staff a holwyd yn meddwl fod hyn yn wahaniaeth da.

Mae bod gartref yn gweithio wedi gofyn addasu sylweddol gan lawer o staff. Roedd staff oedd yn cysgodi'n falch o'r cyfle i barhau i weithio ac o'r cyswllt a gawsant gyda'r byd y tu allan i'w cartref. Er i rai staff a holwyd ddweud fod ganddynt y lle a'r amser i weithio o gartref, i eraill roedd bod gartref yn anodd iawn. Roeddent yn ceisio gweithio a gofalu am eu plant ar yr un pryd a bu'n rhaid i rai wneud penderfyniadau anodd rhwng cael cyswllt â phlant dan eu goruchwyliaeth, ac aros â'u

plant eu hunain. Roedd rheolwyr YOT wedi monitro'r cyswllt â phlant i sicrhau nad oedd staff YOT yn rhoi eu hunain mewn perygl yn ddiangen.

Mae llwythi achosion rheolwyr achos wedi bod yn weddol rwydd, yn rhannol wrth i'r llysoedd gau. Wrth i'r llysoedd gau, ychydig iawn o orchmynion llys newydd neu achosion tor-gorchymyn oedd yn cael eu gwrando yn ystod y cyfnod cloi. Fodd bynnag mae cymhlethdod rhai achosion wedi cynyddu, yn enwedig yn achos plant gydag iechyd meddwl gwael a rhai lle'r oedd trafferthion yn y teulu. Mae rheolwyr achos a gweithwyr partneriaeth wedi gwneud ymdrechion parhaus a phenderfynol i aros mewn cysylltiad â'r plant hyn, ac yn aml yr unig wasanaeth i fod wedi gweld y plentyn.

Roedd timau staff wedi gwneud ymdrechion gwych i gefnogi ei gilydd, yn broffesiynol a phersonol. Gwelsom sawl enghraifft o flaengareddau lle'r oedd timau'n treulio amser rhithiol gyda'i gilydd. Roeddent yn cynnwys cyswllt ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys toriadau coffi ar-lein. Roedd staff mewn un gwasanaeth wedi creu 'rhestr chwarae' ac wedi'i rhannu.

### Gwaith partneriaeth

Mae'r pandemig wedi amlygu ansawdd a manteision gweithio mewn partneriaeth. Lle'r oedd hyn yn gryf o'r blaen, mae partneriaid wedi gallu ymateb yn gyflym i heriau'r pandemig. Digwyddodd llawer o'r newid mewn darparu gwasanaeth yn sydyn iawn, ac i ddechrau roedd partneriaid wedi paratoi'r timau YOT am y posibilrwydd y gallai staff arbenigol gael eu tynnu'n ôl. Roedd hyn yn broblem arbennig i'r gwasanaethau iechyd, oedd yn paratoi i symud staff at wasanaethau brys rheng flaen. Ni thynnwyd staff yn ôl yn y rhan fwyaf o'r gwasanaethau, ond roedd rhai fel cyffuriau ac iechyd meddwl wedi canolbwyntio ar blant gyda'r angen mwyaf gan symud at ddarparu 'o bell'.

Lle'r oedd partneriaethau cryf ac effeithiol eisoes yn bodoli, roeddent wedi cynorthwyo'r broses yn sylweddol fel bo'r darparu wedi gallu addasu'n haws i ffyrdd newydd o weithio. Yn benodol, lle'r oedd gan bartneriaeth gyd-ddealltwriaeth o anghenion plant, roedd wedi'i hwyluso i gydnabod fod angen i rai plant oedd yn cael eu goruchwylio gan yr YOT gael eu dosbarthu fel plant bregus, er nad oedd hyn wedi'i nodi ym meini prawf y DfE (isod):

"Mae plant a phobl ifanc fregus, i'r pwrpas o barhau i ymbresenoli dros gyfnod y coronafeirws (Covid-19), yn cynnwys rhai ar draws pob grŵp blwyddyn sydd:

- wedi eu hasesu i fod mewn angen o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989, gan gynnwys plant a phobl ifanc sydd â chynllun plentyn mewn angen, cynllun amddiffyn plentyn neu sy'n blentyn mewn gofal
- gyda chynllun addysg, iechyd a gofal (EHC) a lle penderfynir, yn dilyn asesiad risg, y gellir cwrdd yn ddiogel neu'n fwy diogel ag anghenion y plentyn yn yr amgylchedd addysgol
- wedi eu hasesu i fod yn fregus fel arall gan ddarparwr addysgol neu awdurdod lleol (gan gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol plant) ac a allai felly elwa o barhau i ymbresenoli. Gallai hyn gynnwys plant a phobl ifanc ar fin derbyn cymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant, plant wedi eu mabwysiadu, plant mewn perygl o ddod yn NEET (nid mewn addysg, hyfforddiant na gwaith), rhai sy'n byw mewn llety dros dro, sy'n ofalwyr ifanc a phlant eraill yn ôl disgresiwn y darparwr a'r awdurdod lleol."

Nid oedd plant mewn cysylltiad â'r timau YOT wedi eu cynnwys yn niffiniad y DfE o blentyn bregus oni bai fod ganddynt gynllun addysg, iechyd a gofal neu gynllun amddiffyn. O ganlyniad nid oedd rhai plant yn cael cynnig lle'n awtomatig mewn ysgol dros y cyfnod clo. Roedd gan awdurdodau lleol ddiffiniadau lleol ac nid oeddent i gyd yn cynnwys plant a aseswyd gan y timau YOT i fod yn fregus.

Yn Essex, defnyddiwyd diffiniad ehangach o fregusrwydd. Roedd yn cynnwys plant mewn cysylltiad â'r YOT a phlant o deuluoedd a fu ar fin bod angen cymorth gan y gwasanaethau plant cyn y cyfnod clo, neu lle'r oedd gan effeithiau'r cyfnod clo botensial i chwalu'r teulu. Roedd y

gwasanaethau plant a'r YOT yna'n gallu targedu a blaenoriaethu gwasanaethau i gefnogi'r plant a'r teuluoedd hyn yn ataliol.

Wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen, defnyddiwyd diffiniad y DfE gan lywodraeth leol a chanolog i ddyrannu adnoddau pellach. Roedd hyn yn cynnwys darparu gliniaduron drwy'r ysgolion, a pharseli bwyd a theganau gan yr awdurdodau lleol. Argymhellwn fod byrddau rheoli YOT yn adolygu'r diffiniad lleol o blant bregus i sicrhau bod yr holl blant perthnasol sy'n hysbys i'r YOT yn cael eu cynnwys.

Nid yw llawer o'r gwasanaethau sy'n hanfodol i'r grŵp hwn o blant wedi bod ar gael. Mae gwasanaethau fel mentora a chwaraeon nid yn unig yn cynorthwyo ymatal rhag troseddu drwy gynnig gweithgareddau positif ond hefyd yn rhyddhau pwysau ar deulu gan roi amser allan o'r cartref mewn amgylchedd diogel i blant a rhieni.

Roedd cyswllt â gweithwyr cymdeithasol wedi gwella drwy weithio o bell. Un farn gyffredin gan staff YOT oedd ei bod yn haws cysylltu â gweithwyr cymdeithasol dros y cyfnod clo nag o'r blaen, a bod ymholiadau'n cael ymateb. Roedd symud at gyfarfodydd rhithiol ac ar-lein wedi gwella presenoldeb mewn cyfarfodydd aml-asiantaeth. Lle bo'n bosib, dylai hyn barhau yn y dyfodol. Gwelsom enghreifftiau da o waith agos a chydweithredol rhwng timau YOT a gweithwyr cymdeithasol, yn enwedig mewn sefyllfaoedd argyfwng.

Ym mhob ardal, mae partneriaethau wedi ceisio dysgu gwersi o'r dulliau newydd o weithio. Yn Newcastle, bu'r YOT yn rhan o ymgynghoriad gan y gwasanaethau plant i ganfod 'Beth na allwn wneud hebddynt', 'Pethau a wnawn yn wahanol' a beth 'Na fyddwn yn mynd yn ôl atynt'. Mae'r ymgynghoriad wedi adnabod ystod o broblemau cyffredin a rhai arferion da. Gwelsom amrywiol enghreifftiau o'r math hwn o ddysgu, i gyd ar thema debyg.

### Gwaith llys ac ôl-waith


Mae cau'r llysoedd dros dro oherwydd COVID-19 wedi cynyddu'r oedi gydag achosion yn dod i'r llys. Erbyn diwedd Mehefin 2020 roedd yr ôl-waith o blant a phobl ifanc yn aros i ddod i'r llys wedi cynyddu o 55% o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn cynt. Roedd amrywiadau helaeth rhwng gwahanol ardaloedd llys fel y gwelwn yn Ffigwr 1 isod. Sir Efrog a Humberside a welodd y cynnydd lleiaf sef 33%, a De Llundain a welodd y cynnydd mwyaf sef 97%. Yng Ngogledd-Orllewin Lloegr roedd cynnydd o 7%, ond data arwahanol oedd hwn oherwydd llwyth achosion llai yn 2019/2020, tuedd na welsom yn unlle arall. Cynyddodd yr ôl-waith o blant a phobl ifanc yn aros i fynd i'r llys ar gyfradd is nag ôl-waith cyffredinol y llys, a gynyddodd o 70%. Gallai'r cynnydd yn nifer yr achosion yn aros i fynd i'r llys hefyd fod wedi digwydd oherwydd y cwymp sydyn, yn ôl adroddiadau, mewn troseddu ar ddechrau'r cyfnod clo, gan ryddhau amser yr heddlu i brosesu achosion. Dim ond hyd at fis Mawrth 2020 y mae data troseddu'r heddlu ar gael, felly ni allwn gadarnhau hyn. O hydref 2020 ymlaen, rydym yn disgwyl gweld cynnydd siarp mewn gwaith llys gan dimau YOT wrth i'r llysoedd fynd drwy'r ôl-waith hwn ac wrth i blant a ryddhawyd ar gyfer ymchwilio gael eu cyhuddo â throseddau. Mae ffigurau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn awgrymu bod yr ôl-waith ieuenctid wedi cynyddu ar raddfa is na'r ôl-waith oedolion[4].

Mae'r cynnydd mewn achosion ieuenctid yn aros i fynd i'r llys (ffigwr 1) yn seiliedig ar wybodaeth a gawsom gan Wasanaeth Erlyn y Goron[5].

**Ffigwr 1**

[4] Gwasanaeth Erlyn y Goron (2020). *Data rhagarweiniol ar ôl-waith llysoedd ieuenctid. Heb ei gyhoeddi*

[5] Gwasanaeth Erlyn y Goron (2020). *Data rhagarweiniol ar ôl-waith llysoedd ieuenctid. Heb ei gyhoeddi*




Mae gwybodaeth am yr union gynnydd mewn ôl-waith gan dimau YOT unigol yn anodd ei chasglu. Yng Nghymru, mae cyfarfodydd pythefnosol rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol wedi nodi bod hyn yn broblem ac yn monitro maint yr ôl-waith. Roedd trefniadau tebyg yn Lloegr; er enghraifft roedd YOT West Mercia wedi bod yn olrhain yr ôl-waith i gynllunio dyrannu'r gwaith yn y dyfodol.

O ystyried yr effaith bosib ar waith y timau YOT, yn y llys ac o ran rheoli achosion, byddem yn pwyso ar fyrddau rheoli YOT i ddeall effaith yr ôl-waith hwn ar eu gwasanaethau ac ystyried hyn wrth gynllunio adferiad.

### Dedfrydau allan-o-lys

Mae dedfrydau allan-o-lys a phaneli gorchmynion cyfeirio wedi parhau dros y pandemig, ond wedi symud at lwyfannau rhithiol. I'r timau YOT a arolygwyd, cawsom wybod bod eu hachosion yn codi'r un mor aml a'r un mor niferus â chyn y cyfnod clo. Yn yr achosion a aseswyd gennym, ni welsom unrhyw dystiolaeth fod achosion a ddylai fod wedi mynd i'r llys yn derbyn dedfrydau allan-o-lys. Fodd bynnag, mae hyn yn bryder o hyd i rai rheolwyr YOT. Ar ôl eu hatal i ddechrau, roedd y paneli dedfrydu allan-o-lys wedi ailymgynnull yn gyflym. Arhosodd y prosesau rhannu gwybodaeth yn effeithiol a gwelsom yr ystod lawn o opsiynau'n cael eu defnyddio, gan gynnwys gwneud iawn. Roedd asesiadau'n cael eu gwneud o bell a bu'n rhaid i reolwyr achos ddibynnu ar wybodaeth gan bartneriaid lle bo'n bosib. O'r herwydd roedd yr asesiadau'n gyfyngedig ac yn colli allan ar wybodaeth a fyddai fel arfer wedi'i chasglu o weld y plentyn yn amgylchedd eu cartref. Soniodd staff am drafferthion sefydlu ymddiriedaeth a pherthynas heb erioed fod wedi cyfarfod â'r unigolyn yr oeddent wyneb yn wyneb â nhw. Lle'r oedd y plentyn yn ymgysylltu'n dda, roedd rheolwyr achos wedi gallu gwneud rhywfaint o waith ymyrryd. Roedd hyn yn llawer haws os oeddent eisoes yn adnabod y plentyn a pherthynas eisoes rhyngddynt.

**Enghraifft o ymarfer da**

Merch 15 oed yw Ria a dderbyniodd orchymyn cyfeirio 3 mis am ymosod ar blismon. Dechreuodd ei gorchymyn ychydig cyn y cyfnod clo felly roedd y rhan fwyaf o'i gorchymyn wedi cael ei ddarparu dros gyfnod cyfyngiadau COVID-19 a'i oruchwylio gan YOT West Mercia. Mae'n byw gyda'i mam a'i chwaer anabl ac mae lle'n brin yn ei chartref. Roedd gan y ddwy chwaer gynlluniau amddiffyn plant ac roedd y gwasanaethau plant yn gweithio gyda'r teulu. Roedd y gweithiwr cymdeithasol wedi ymweld â'r cartref yn rheolaidd dros y cyfnod clo gan fwydo'r wybodaeth yn ôl i asiantaethau eraill. Roedd gwaith aml-asiantaeth da wedi'i wneud yn yr achos hwn, gyda chyswllt rheolaidd rhwng gofal cymdeithasol plant, y gwasanaeth CAMHS a'r YOT. Mae'r YOT wedi parhau i ddarparu ymyriad – rhaglen i ferched – sydd wedi'i ddarparu drwy e-bost ac wedi'i ôl-ddilyn gan drafodaethau dros y ffôn. Mae Ria'n ymddangos i fod wedi ymgysylltu â'r model hwn, gyda sgyrsiau meddylgar a deallus. Cafwyd apwyntiadau cerdded a siarad y tu allan i'r cartref gyda Ria'n dewis y llwybr ar gyfer y troeau hyn, sy'n golygu mai hi sy'n penderfynu faint y mae'r cyfarfod yn para. Mae'n rhoi peth rheolaeth a pherchnogaeth o'r apwyntiadau iddi. Llwyddodd Ria i gwblhau ei gorchymyn cyfeirio ac mae ymyriadau targed wedi gwella ei gwydnwch gan roi allanfa hanfodol i'w hemosiynau a chynorthwyo gwaith y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant.

### Trefniadau oedolion priodol

Mae'r trefniadau oedolion priodol, sy'n amrywio o ardal i ardal, wedi aros yn gryf. Mae'r rhain wedi cynnwys ymweld â phlant yng nghelloedd yr heddlu pan oedd mathau eraill o gyngor a chymorth yn digwydd o bell. Mae cyngor cyfreithiol gan gyfreithwyr wedi'i roi o bell. Cyflwynodd Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu brotocol ar gyfweliadau interim ar-y-cyd, i sicrhau y gellid rhoi cyngor cyfreithiol o bell. Cafodd yna ei ddiweddaru i gynnwys rhagofalon i blant i sicrhau eu bod yn derbyn cymorth gan oedolyn priodol wyneb yn wyneb. Cymrodd y canllawiau mwy diweddar hyn amser i hidlo trwodd i bob lleoliad dan glo. Cyflwynodd y Rhwydwaith Oedolion Priodol Cenedlaethol (NAAN) hefyd ganllawiau ar bryd y mae cyngor cyfreithiol o bell yn addas. Mae cynlluniau oedolion priodol wedi gallu recriwtio gwirfoddolwyr dros y cyfnod clo, wrth i fwy o bobl allu cynnig eu gwasanaeth. Ar gyfer y dyfodol, bydd yn bwysig i reolwyr YOT ddeall y safiad lleol ar wasanaethau oedolion priodol.

## Darparu gwasanaeth

Mae'r ffordd y darperir gwasanaethau wedi newid. Gwelsom arloesi a manteision i blant, teuluoedd a staff. Roedd y rhain yn cynnwys manteision cysylltu â phlant dros y ffôn wrth iddynt ddod i adnabod staff, addasu rhaglenni i'w darparu 'o bell', a rhieni'n cyfrannu mwy at ddarparu gwaith i roi sylw i anghenion cysylltiedig â throseddu. Fodd bynnag, mae rhai agweddau ar ddarparu gwasanaeth a gwaith i amddiffyn plant a dioddefwyr wedi mynd yn llawer anoddach. Mae angen i dimau YOT nawr ystyried yn ofalus sut y dylai'r gwasanaethau symud ymlaen, pa elfennau y maen nhw am eu cadw a sut, ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, y gellir cynorthwyo timau YOT i reoli'r agweddau ar y gwaith sydd fwyaf heriol.

Roedd ffocws ein hadolygiad o achosion ar effaith y newid mewn trefniadau goruchwylio. Adolygwyd sampl o achosion a ddechreuodd cyn y cyfnod clo (sampl cyn-gyfnod clo) i asesu effaith y goruchwylio, a sampl o achosion a ddechreuodd ar ôl dechrau'r cyfnod clo (sampl ôl-gyfnod clo) i weld beth oedd yn cael ei ddarparu ar gyfer achosion newydd.

### Asesu

Roedd y saith YOT wedi adolygu eu llwythi achosion i ganfod pa blant i roi blaenoriaeth iddynt a natur a pha mor aml y dylid cael cyswllt â'r plant. Ar y cyfan roedd yr asesiadau hyn yn seiliedig ar wybodaeth yn AssetPlus neu asesiadau o ddedfrydau allan-o-lys. Roedd y meini prawf yn rhesymol

a synhwyrol ac yn cael eu hadolygu'n gyson wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen. Roedd cynllun Ynys Wyth wedi nodi fod y 'coronafeirws yn cyflwyno newid sylweddol mewn amgylchiadau'. Roedd hyn yn gyffredin ac roedd ail-asesu'r plant wedi dechrau gyda'r achosion risg uchel / dwys. Roedd staff a rheolwyr YOT wedi ymateb yn gyflym i wybodaeth newydd. Roedd y paneli risg a bregusrwydd wedi parhau, ac weithiau wedi cwrdd yn amlach.

Ystyriwyd bod dosbarthiad lefel diogelwch a lles y plentyn yn gywir mewn 64 allan o'r 70 achos yn y sampl (91%); fodd bynnag, roedd dosbarthiad risg o niwed cywir wedi'i wneud mewn llai o achosion - 54 allan o 70 (77%). Roedd cynnwys yr asesiadau a'r ailasesiadau wedi esblygu dros amser wrth i staff ddod yn well am gynnal asesiadau rhithiol ac o bell.

At ei gilydd roedd yr asesiadau risg o niwed i eraill yn well na'r asesiadau lles a diogelwch. Nid oedd asesiadau bob tro'n canolbwyntio ar y materion newydd oedd wedi codi'n benodol yn sgîl COVID-19 a'r cyfyngiadau. Cymrodd amser i rai risgiau i eraill ddod yn amlwg ac roedd angen ystyried mwy ar y risg i ddioddefwyr cam-drin domestig unwaith y dechreuodd y cyfnod clo. Mewn un achos roedd yr arolygydd wedi nodi:

*"Aseswyd bod y risg o niwed difrifol yn 'isel' i ddechrau ond dylai fod wedi bod yn 'ganolig' ar sail y wybodaeth oedd ar gael ar ddechrau'r ddedfryd, gan gynnwys ei ymddygiad tuag at ei fam a phryderon eraill a gododd yn ystod ei oruchwylio. Ni newidiwyd lefel y risg ar ôl adolygu. Ni ystyriwyd 'chwaith sut fath o strategaeth ymadael fyddai ei angen i gadw pobl eraill yn ddiogel, yn enwedig oherwydd bod y plentyn yn risg i'w fam ac y byddent dan gyfyngiadau gyda'i gilydd".*

Gydag achosion a ddechreuodd ar ôl dechrau'r cyfnod clo, roedd plant a rhieni wedi cyfrannu'n ddigonol at yr asesiad mewn 16 allan o'r 20 achos. Roedd asesiadau wedi dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel, ac wedi ystyried y newidiadau yn sgîl cyfyngiadau Covid-19, mewn 15 allan o 18 achos perthnasol. Roedd asesiadau o ddiogelwch plant dros y pandemig yn ddigonol mewn 14 allan o 20 achos.

**Enghraifft o ymarfer da**

Roedd YOT Southwark wedi datblygu a defnyddio asesiad risg penodol i COVID-19 i adnabod effaith y pandemig ar iechyd meddwl, corfforol ac emosiynol, a phroffil troseddu, pob plentyn. Drwy wneud hyn roedd yr YOT wedi gallu penderfynu pa lefel o wasanaeth i'w roi i'r plant ond hefyd unrhyw risg uwch neu is yn sgîl Covid-19. Adolygwyd y rhain i adlewyrchu'r amgylchiadau newydd. Roedd yr asesiad risg yn arbennig o effeithiol oherwydd ei fod yn adeiladu ar y model darparu gwasanaeth seicolegol a deall trawma. Fe'i defnyddiwyd hefyd fel pwynt trafod gyda'r plant a'r bobl ifanc gan hwyluso trafodaethau gonest ac agored am risgiau ac ofnau'r unigolion. Roedd staff a holwyd wedi gallu disgrifio effaith seicolegol y pandemig ar blant ac wedi adnabod yn gywir bod y cyfnod hwn yn brofiad plentyndod niweidiol. Roedd hyn wedyn wedi'i adlewyrchu yn eu gwaith gyda'r plant, er enghraifft y rhaglen deall trawma wedi'i haddasu i godi ymwybyddiaeth o arfau. Roedd sesiynau wedi eu darparu o bell ac ar sail un-i-un, gan gynnwys datblygu cynllun diogelwch unigol yn disgrifio sut y gallai'r plentyn aros yn ddiogel dros y cyfnod clo ac wedyn.

### Cynllunio

Nid oedd dogfennau cynllunio AssetPlus yn trosi'n hawdd i weithio dros y pandemig ac roedd angen arweiniad ar staff ar sut i ymgorffori effeithiau Covid-19. Roedd y cynllunio'n aml yn well mewn realiti nag o weld y cofnod achos. Gydag achosion a ddechreuodd ar ôl cyflwyno'r cyfnod clo, y cynllunio i gynnal ymgysylltiad y plant a'r rhieni oedd gryfaf ac yn ddigonol mewn 17 allan o'r 19 achos perthnasol. Roedd rheoli'r risg o niwed i eraill yn ddigonol mewn 15 allan o'r 19; ond roedd cynllunio i gadw'r plentyn yn ddiogel ond yn ddigonol mewn 13 allan o'r 19. Fodd bynnag, dyluniwyd y dogfennau cynllunio ar adeg pan oedd y model darparu'n seiliedig ar waith swyddfa ac wyneb yn wyneb. Roedd cynllunio ar gyfer dedfrydau allan-o-lys yn well oherwydd cawsant eu dylunio'n lleol a gellid felly eu haddasu.

Roedd y fforymau cynllunio wedi parhau, gan gynnwys cyfarfodydd i drafod risg a bregusrwydd, a chynhaliwyd cyfarfodydd MAPPA pan fo angen. Symudodd y rhain i gyd at lwyfannau rhithiol. Roedd gweithwyr cymdeithasol yn rhan o'r cynllunio ar gyfer plant mewn gofal. Dywedodd un wrthym:

*"Cyfrannais at greu'r cynllun ymyrryd Covid-19, holwyd fy marn ac ar sut y byddai pethau'n symud ymlaen. Roedd yn anodd iawn oherwydd dim ond cwpwl o weithiau oedd rheolwr achos yr YOS 'oddi ffwrdd' wedi gweld [y plentyn] cyn y cyfnod clo, ond fe wnaethom gynllunio sut y gallai'r rheolwr achos gadw mewn cysylltiad â fo dros y cyfnod".*

Cynllunio ar gyfer plant yn y carchar oedd y prif ffocws gan staff er na allent fynychu cyfarfodydd cynllunio. Mewn un achos roeddem wedi nodi:

*"Roedd y cynllunio'n gyfuniad o amodau trwydded, cyfarfodydd cynllunio risg uchel, a'r AssetPlus. Roedd y cyfarfodydd cynllunio lefel uchel wedi ymateb i'r sefyllfa COVID-19 gan ddisgrifio sut y byddai'r plentyn yn cael eu gweld o dan y cyfyngiadau. Roedd hyn yn gyfuniad o apwyntiadau 'cerdded a siarad' y tu allan i'r cartref, a ffonio. Roedd y cynllunio hefyd wedi cynnwys sicrhau bod ganddo werth mis o'i feddyginiaeth ADHD ar ôl ei ryddhau, a hyn i'w ôl-ddilyn gan apwyntiad adolygu â'r CAMHS cymunedol".*

Oherwydd anghenion cymhleth llawer o'r plant, roedd y cynllunio'n aml yn digwydd ag asiantaethau eraill, gan gynnwys gofal cymdeithasol plant a'r timau ecsbloetio plant a phlant ar goll. Roedd partneriaid wedi ystyried yn ofalus sut orau i gadw mewn cysylltiad i ddiogelu plant ond heb orlwytho'r plant a'u teuluoedd. Roedd staff YOT yn aml yn rhan o'r cynlluniau aml-asiantaeth hyn, ac yn cael eu cynnwys mewn ymweliadau stepan drws a'r trefniadau cyswllt dyddiol.

Un maes lle mae angen ffocws cryfach a chynllunio mwy manwl yw amddiffyn dioddefwyr, yn bennaf trais plant yn erbyn rhieni. Mae natur y cam-drin hwn yn golygu nad yw'r trefniadau ar gyfer oedolion a fyddai fel arfer yn rhan o gynllun diogelu dioddefwr a chynadleddau asesu risg aml-

asiantaeth (MARAC) yn berthnasol i gyd. Gwelsom rai enghreifftiau o staff YOT yn ceisio datrys y broblem gydag un rheolwr achos wedi darparu blwch gyda chlo arno i gadw cyllyll cegin. Rhoddwyd hefyd gyngor rheolaidd y dylai dioddefwyr ffonio'r heddlu os oeddent dan fygythiad neu ymosodiad. Fodd bynnag gall gwrthdaro godi pan fydd y gweithiwr YOT yn ceisio lleihau ymddygiad heriol y plentyn a chynorthwyo'r dioddefwr ar yr un pryd.

**Darparu a gweithredu**

Lle'r oedd gan blant berthynas eisoes â'r YOT, roedd symud at weithio o bell yn haws, wedi'i gynorthwyo gan deimlad fod pawb yn y sefyllfa gyda'i gilydd. Mewn achosion newydd lle nad oedd cysylltiad eisoes, bu'n rhaid creu ymddiriedaeth a pherthynas o bell. Roedd hyn yn anoddach.

Roedd cyswllt â phlant a theuluoedd yn ddigonol mewn 57 allan o'r 67 achos perthnasol (85%). Gwelsom enghreifftiau da o ddefnyddio technoleg fel Zoom, WhatsApp, Skype, llythyrau a gwaith gwneud iawn. Gwelsom rai ymweliadau swyddfa i blant a deimlai mai'r YOT oedd y lle mwyaf diogel i gael eu gweld. Roedd timau YOT yn aml yn rhoi cymorth ymarferol drwy ddosbarthu pecynnau bwyd a theganau i deuluoedd lle'r oedd yn anodd arnynt. I rai teuluoedd, dyma'r unig gymorth a gawsant. Mae hyn wedi helpu staff YOT i gadw mewn cysylltiad a deall yn well sut y mae teuluoedd yn ymdopi â'r cyfyngiadau.

Ar ddechrau'r cyfnod clo, roedd ymweld â chartrefi ond yn digwydd i blant a theuluoedd lle'r oedd y risg fwyaf. Yn Essex, y tîm goruchwylio a chadw llygad (ISS) a phlismyn Plant a Phobl Ifanc a gyflawnodd yr holl ymweliadau cychwynnol ar ran y gweithwyr achos.

Wrth i'r cyfyngiadau ar ymarfer corff lacio, roedd staff wedi ymweld mwy. Roedd sesiynau 'cerdded a siarad' drwy gadw pellter cymdeithasol, beicio, ac yn Cumbria ymweliadau â rhandir cymunedol yr YOT, i gyd wedi gweithio'n dda. Mae'r gweithgareddau hyn wedi rhoi seibiant i blant a'u rhieni neu ofalwyr ac mae plant wedi gallu siarad am eu profiadau a rhannu unrhyw ofnau neu bryderon.

Mae staff YOT wedi parhau i ddarparu ymyriadau i blant o bell, gan gynnwys rhieni lle bo'n briodol. Dywedodd rhai rhieni eu bod yn hoffi gwneud y math yma o waith gyda'u plentyn oherwydd ei fod yn rhoi dealltwriaeth well iddynt o'r hyn sydd wrth wraidd troseddau ac ymddygiad eu plentyn.

Meddai un rhiant:

*"A bod yn onest, chefais i ddim llawer i'w wneud gyda'r YOT ond ers y pandemig maen nhw wedi bod yn wych. O'r blaen, byddent yn ei godi o'r PRU".*

Ar ôl ystyried y newidiadau yn sgîl cyflwyno cyfyngiadau Covid-19, roedd gweithredu a darparu ymyriadau wedi rhoi sylw dyledus i ddiogelwch y plentyn ac i'r risg o niwed i eraill, yn y rhan fwyaf o achosion (81%).

Roedd rhai timau YOT wedi parhau i wneud gwaith gwneud iawn. Yn Essex roedd yn un o nodweddion gwaith y timau. Roedd staff ISS wedi darparu prosiectau a deunyddiau i gartrefi plant, gan gynnwys gwneud blychau adar a phosteri 'Arhoswch yn Ddiogel' i'w rhoi mewn gerddi. Ar gyfer un prosiect roedd plant wedi ysgrifennu llythyrau at breswylwyr cartref gofal lleol i gynnal eu cyswllt â'r gymuned.

Cawsom air â nifer o aelodau'r paneli gorchmynion cyfeirio, a fu'n gweithio o bell, drwy lwyfannau fideo-gyfarfodydd. Roedd aelodau'r paneli wedi cael peth hyfforddiant a chyfarwyddyd ar gyfarfodydd rhithiol. Fodd bynnag roedden nhw'n teimlo, er ymdrechion gorau'r staff YOT, na allent gael dealltwriaeth o'r plentyn a bod gormod yn cael ei golli drwy fethu â gweld y cyfathrebu dieiriau a'r ddeinameg rhwng plant a'u rhieni neu ofalwyr. Roedd yr aelodau hefyd yn gresynu na allai gorchmynion ddod i ben yn gynt am gynnydd da, oherwydd bod y llysoedd wedi cau.

Roedd plismyn wedi parhau i wneud ymweliadau i wirio lles plant ar ôl iddynt ddychwelyd ar ôl bod ar goll o'u cartrefi. Roedd staff mewn cartrefi gofal preswyl wedi ymdopi ag ymddygiad eithafol weithiau, wedi'i waethygu gan bryderon plant am eu teuluoedd.

| Enghraifft o ymarfer da |
|---|
| Gwelsom rai enghreifftiau anhygoel o staff yn amddiffyn plant a chynorthwyo teuluoedd ar adegau o argyfwng. Yn Essex roedd aelod o staff wedi mynd â phlentyn yn bersonol i weld seiciatrydd yn ei char, er bod ei theulu yn erbyn y peth. Roedd y plentyn wedi'i hanfon dan orfod i ysbyty meddwl oherwydd sawl ymgais credadwy i wneud amdani ei hun. Roedd yna wedi'i rhyddhau o'r ysbyty ac roedd yn byw gyda'i mam. Nid oedd ei lleoli yno'n gwbl addas, ond ar y cyfan dyna'r peth gorau y gellid ei wneud yn ystod y pandemig. Gofynnodd y plentyn am gael mynd i'r ysbyty meddwl eto, gan wybod ei bod yn mynd yn fwy a mwy despret. Roedd ganddi hanes o ymosod ar blismyn, gan weithiau achosi niwed difrifol. Trefnwyd apwyntiad â seiciatrydd ond roedd angen mynd â'r ferch yno. Roedd dwy blismones wedi gweithio'n ddiflino gyda'r plentyn, yn ceisio sefydlu perthynas ac yn ymweld i wirio ei lles bob dydd tra'r oedd gartref. Roeddent wedi cynnig mynd â hi i'r apwyntiad ond gwyddai gweithwyr proffesiynol y byddai hyn yn achosi gormod o ofid iddi ac felly na fyddai wedyn mewn stad meddwl iawn i siarad â'r seiciatrydd. Roedd gan y gweithiwr YOT berthynas dda iawn â'r ferch a sefydlwyd dros amser ac wedi bod drwy amseroedd da a drwg iawn gyda hi. Er gwaethaf pryderon ei theulu a'i hofnau ei hun am gael y feirws a'i basio ymlaen i'w theulu, roedd y gweithiwr YOT wedi mynd â'r ferch i'w hapwyntiad. Roedd hyn wedi digwydd pan oedd y pandemig ar ei waethaf yn y DU a bron neb eisiau gadael eu cartrefi gan ofni y bydden nhw'n cael y feirws. O ganlyniad i'w anhunanoldeb, roedd y plentyn wedi gallu siarad â'r seiciatrydd oedd yn allweddol i'w hamddiffyn. |

## Carchar

Mae plant yn y carchar, naill ai ar ddedfryd neu remand, wedi bod yn ynysig oddi wrth eu teuluoedd dros y pandemig. Mae cyswllt â'r byd allanol wedi bod yn anodd a chyfundrefn carchardai wedi newid, gyda phlant yn treulio cyfnodau hir yn eu celloedd. Mae gweithwyr YOT wedi'i chael yn anodd cysylltu â'r gweithwyr achos yn y carchar gan effeithio ar reoli'r broses remand a'r cynllunio cyn-rhyddhau. Cymrodd y gwasanaeth carcharu ieuenctid gamau i geisio gwella'r cyfathrebu rhwng carchardai a'r gymuned ond mae problemau sylfaenol wedi bod gyda TG, yr eglurwn fwy amdanynt nes ymlaen.

Mae cau'r llysoedd wedi golygu bod rhai plant wedi treulio mwy o amser ar remand nag arfer wrth i nifer y gwrandawiadau mechnïaeth a remand gael eu lleihau. Mae uwch-arweinwyr wedi lleisio pryderon am faint sydd ar remand. Dywedodd y gwasanaeth carcharu ieuenctid wrthym fod cyfran y plant ar remand wedi cynyddu i tua chwarter i draean y boblogaeth[6], er bod nifer y bobl ifanc dan glo'n gyffredinol i lawr i'r isaf ar record. Erbyn 4 Awst 2020 roedd 38% o'r bobl ifanc yn y carchar yn rhai ar remand[7]. Wrth i ni wynebu cyfyngiadau lleol a rhanbarthol newydd, bydd angen rheoli'r broses o wrando achosion remand a'r pecynnau mechnïaeth a gynigir i'r llysoedd yn ofalus fel nad yw plant yn treulio amser dan glo'n ddiangen.

Dengys gwybodaeth a gasglwyd gan ymweliadau craffu byr Arolygiaeth Carchardai EM[8] â charchardai ieuenctid fod llawer o'r gweithgareddau a fyddai wedi bod ar gael fel arfer wedi'u hatal. Er y bwriad i barhau i ddarparu addysg, roedd addysg wyneb yn wyneb wedi'i atal yn y Sefydliadau

---

[6] Gwybodaeth gan y Gwasanaeth Carcharu Ieuenctid. Gall y niferoedd hyn amrywio.

[7] Gwybodaeth gan Bennaeth y Gwasanaeth Carcharu Ieuenctid yn ôl y sefyllfa ar 4 Awst 2020.

[8] Tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ac a gasglwyd drwy ymweliadau craffu byr â sefydliadau troseddwyr ifanc (YOI). Mae ymweliadau craffu byr yn fath newydd o ymweliad gan Arolygiaeth Carchardai EM lle ymwelir â thri sefydliad tebyg. Nid adrodd ar sut y mae sefydliad yn cwrdd â disgwyliadau Arolygiaeth Carchardai EM yw nod yr ymweliad, ond rhoi ciplun o sut y mae'n ymateb i bandemig Covid-19, a rhannu unrhyw ymarfer da a welir yno. Ar gael ar wefan Arolygiaeth Carchardai EM.

Troseddwyr Ifanc (YOI) a arolygwyd. Mae hyn nid yn unig wedi tarfu ar ddysgu ond wedi arwain at blant yn treulio cyfnodau hir yn eu celloedd, hyd at 22 awr y dydd. Yn fwy cadarnhaol, roedd staff carchardai wedi gweithio'n galed i helpu i baratoi'r plant ar gyfer rhyddhau, ac i'w cadw mewn cysylltiad â thimau YOT a gweithwyr cymdeithasol. Roedd credyd ffôn ychwanegol hefyd wedi'i roi i'r plant.

Gwelsom fod timau YOT wedi ystyried effaith bod yn y carchar ar iechyd meddwl ac emosiynol plant gan gymryd camau i gefnogi'r plant a'r rhieni. Mae angen i'r cyfathrebu â'r ystâd garchardai fod yn fwy effeithiol nag erioed fel bod plant yn barod i gael eu rhyddhau i gyfyngiadau pandemig Covid-19, fydd yn amrywio o ardal i ardal.

**Enghraifft o ymarfer da**

Mewn un achos cawsom air â bachgen 17 oed, wedi'i oruchwylio gan YOT Southwark, oedd newydd ei ryddhau o YOI. Roedd ei frawd a'i weithiwr YOT wedi dod i'w gyfarfod wrth gât y carchar ar ddiwrnod ei ryddhau, mewn ceir gwahanol i gadw pellter cymdeithasol. Roedd y bachgen am greu swigen gymorth gyda'i frawd, aeth â fo yn ei gar i'w lety cymorth. Cawsom air â'r bachgen a'i weithiwr YOT, a ddywedodd ba mor anodd oedd paratoi ar gyfer ei ryddhau oherwydd bod ymweld â'r YOI wedi'i atal. Oherwydd bod ganddynt berthynas dda, roeddent wedi cytuno i siarad dros y ffôn bob wythnos. Roedd hyn yn ymrwymiad sylweddol gan y bachgen oherwydd roedd amser ffôn yn gyfyngedig. Dywedodd:

*"Roeddwn dan glo felly ffoniais fy ngweithiwr YOT bob wythnos. Fo oedd yr unig berson i mi siarad â fo heblaw fy mrawd. Cefais fy ynysu oherwydd ofni y gallai staff a phobl ifanc eraill gael y feirws. Ond roedd yn haws oherwydd wnes i ddim cyfarfod eraill y byddwn wedi cwffio â nhw".*

Aeth ymlaen i ddweud:

*"Mae'r YOT, hyd yn oed staff heblaw eich gweithiwr, yn eich trin fel teulu ac yn gwneud pethau gyda chi nid atoch chi. Mae hyn yn fy helpu".*

Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gwelsom fod y pandemig wedi achosi oedi a drifft fel y dengys yr enghraifft isod. Nododd un arolygydd:

*"Roedd wedi'i ddedfrydu i 56 mis dan glo am droseddau rhyw yn erbyn ei chwiorydd, a ddaeth i ben ychydig cyn i sylw'r heddlu gael ei dynnu at y mater. Mae'r cyfnod clo wedi effeithio ar ei gynnydd: ni allodd ennill y cymwysterau y byddai'n dymuno eu cael mewn Mathemateg a Saesneg; ni chafodd unrhyw asesiadau seicolegol (oedd wedi'i nodi fel rhywbeth angenrheidiol) i ganfod ei anghenion gwybyddol a therapiwtig, ac ni allodd drosglwyddo i'r ystâd oedolion o fewn amser fel bo'n gallu cyfrannu at raglen i'w helpu i ddatrys ei ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae ei reolwr achos YOT wedi ysgrifennu ato'n fisol ond llythyrau byr a diafael yw'r rhain. Roedd wedi cael cyswllt â'r gweithiwr cymdeithasol, dewis y person ifanc oedd hyn. Roedd y wybodaeth yna'n cael ei rhannu rhwng y gweithiwr cymdeithasol a'r rheolwr achos YOT".*

Mae effaith y pandemig a'r cyfnod clo ar blant yn dod yn fwy amlwg a bydd yr effeithiau hyn yn parhau am fisoedd a blynyddoedd i ddod. Bydd gallu addasu'n hanfodol i helpu timau YOT i baratoi ar gyfer aflonyddwch gwasanaeth yn y dyfodol, mewn byd sy'n debygol o fod wedi newid.

### Ymgysylltu â phlant a theuluoedd

Roedd ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi cael blaenoriaeth gan y timau YOT a arolygwyd, i ddechrau ar sail asesiadau risg ac yna mewn ymateb i anghenion a risgiau newydd. Lle'r oedd perthynas yn bodoli eisoes, roedd yr ymgysylltu'n tueddu i symud yn haws at ddull o bell. Lle nad

oedd y plentyn a'r teulu'n hysbys i'r timau, roedd sefydlu perthynas ac ymgysylltu'n llawer anoddach i'r staff.

Dywedodd y plant eu bod yn hoffi cyswllt dros y ffôn, yn enwedig wrth ddod i adnabod y gweithiwr a sefydlu perthynas. Dywedodd y plant a'r rhieni ei fod yn teimlo'n llai dwys a 'brawychus':

*"Roedd yn teimlo fod dwy sesiwn wyneb yn wyneb pob wythnos yn ormod a'i bod yn llawer haws cael un cyfarfod wyneb yn wyneb yr wythnos ac ail gyswllt dros y ffôn, yn enwedig drwy na fyddai raid iddo fynd allan".*

*"Mae'n ffonio a dod i'n gweld yn yr ardd. Mae'r sesiynau'n digwydd yn fy nghartref sy'n dda oherwydd mae'n well na mynd i'r swyddfa. Rwy'n hoffi cyswllt ffôn oherwydd mae cwrdd wyneb yn wyneb bob tro'n anodd".*

Wrth i'r rhan fwyaf o'r wlad gydymffurfio â'r cyfyngiadau ac aros adra, roedd staff YOT yn gorfod ceisio rheoli plant oedd yn cael trafferth cydymffurfio. Roedd nifer fach o blant yn ein sampl wedi achub ar y cyfle i feddwl am gyfeiriad eu bywydau. Bu'r cyfyngiadau'n gyfle i dorri'r cysylltiad â ffrindiau di-fudd ac ail-afael yn eu perthynas â theulu a gweithwyr proffesiynol. Lle'r oedd hyn yn digwydd, roedd staff YOT wedi chwilio am gyfle i wneud y mwyaf ohono. Roedd un bachgen 16 oed ar fin ymuno mewn gweithgareddau gang. Roedd wedi dod yn darged a gwnaed ymgais i'w drywanu â chyllell. Bu'n cefnogi ei deulu dros y cyfnod clo oherwydd roedd angen i un aelod gysgodi. Drwy weithio â'i weithiwr YOT defnyddiodd ei amser i fyfyrio ar ei fywyd. Cafodd ei gynorthwyo i wneud defnydd da o amser y cyfnod clo gan wneud cais am a llwyddo i gael prentisiaeth.

I'r rhan fwyaf o blant, roedd y cyfnod clo'n anodd iawn. Roedd eu trafferthion wedi dwysáu wrth i bwysau'r cyfnod clo ychwanegu at eu gorboeni ac nid oedd y gwasanaethau cymorth mor hygyrch. I rai plant roedd hyn yn cynyddu eu risg oddi wrth bobl eraill. Un enghraifft oedd y newid mewn cyflenwi a defnyddio cyffuriau anghyfreithlon wrth i'r cadwyni cyflenwi addasu i'r cyfyngiadau. Defnyddiodd y timau YOT wybodaeth gan wasanaethau cyffuriau, yr heddlu a ffynonellau eraill i geisio deall effaith y newidiadau ar blant, yn blant a ecsbloetiwyd yn droseddol a phlant yn byw mewn cartref gyda chyffuriau. Mewn achosion a welsom lle'r oedd plant yn cael eu hecsbloetio'n droseddol gan linellau cyffuriau sirol, neu lle'r oedd risg o hyn, cawsant eu symud allan o'r ardal i'w diogelu.

Eglurodd rheolwyr partneriaethau yn Newcastle sut yr oeddent wedi delio â hyn:

*"Collwyd gwybodaeth aruthrol ar y dechrau ond roedd yr ecsbloetio troseddol yn parhau a hefyd yn esblygu. Felly bu'n rhaid i ni addasu'n gyflym iawn a newid y drefn arferol o wneud pethau. Felly rydym nawr yn edrych yn fwy ar gyswllt plant â'r cyfryngau cymdeithasol. Bu'n rhaid tyllu'n ddyfnach i'r ecsbloetio anweledig".*

Mae COVID-19 wedi annog timau YOT i fapio'r gwahanol ddulliau o gyfathrebu a ddefnyddir gyda phlant ac sydd ar gael i blant, gyda'r profiad wedi eu gwneud yn gryfach a mwy abl i ymateb.

**Enghraifft o ymarfer da**

Roedd Laura wedi gweithio gyda'r un rheolwr achos, o YOT Cumbria, ers 2018. Mae'n byw mewn teulu cymhleth. Mae ei rhieni'n droseddwyr a defnyddwyr cyffuriau proffil uchel. Maen nhw'n tueddu i herio, yn gwrthod derbyn y gwir ac yn gwneud yn fach o'r risg i Laura a'i brawd. Parhawyd i ffonio a gwneud ymweliadau stepan drws drwy gydol y cyfnod clo gyda'r fam yn cael ei hannog i ffonio'r heddlu os oedd Laura'n mynd ar goll. Roedd y fam yn erbyn hyn oherwydd nad oedd eisiau cyswllt â'r heddlu. Mae'r rheolwr achos wedi gweithio i helpu'r fam i ddeall bod ffonio'r heddlu os bydd ei merch yn mynd ar goll yn dystiolaeth ei bod yn gweithio i gadw Laura'n ddiogel. Mae'r rheolwr achos wedi parhau i gynghori'r rhieni ar ofynion y cyfnod clo a'r mesurau diogelwch sydd angen eu cymryd, a hefyd i'w herio lle torrir y cyfyngiadau.

## Trais gan blant a phobl ifanc yn erbyn eu rhieni

Yn ystod yr arolygiad hwn, yr achosion oedd yn ein poeni fwyaf oedd rhai lle'r oedd plentyn yn dreisgar tuag at rieni a brodyr / chwiorydd. Nid oedd raid i bobl aros adra oherwydd COVID-19 os oedd angen gadael i ddianc rhag cam-drin domestig, gyda'r cyfryngau'n tynnu sylw at gynnydd mewn cam-drin domestig dros y cyfnod clo. Ond mae'r problemau sy'n wynebu dioddefwr yn wahanol os yw'r camdriniwr yn blentyn i chi ac ychydig iawn o sylw a roddwyd i hyn yn y cyfryngau. Roedd rheolwyr achos a gweithwyr proffesiynol eraill a holwyd yn poeni y gallai'r math yma o gam-drin gynyddu o ran difrifoldeb a pha mor aml yr oedd yn digwydd.

Mae ein canfyddiadau'n adleisio'r rhai a nodir yn yr adroddiad *Experiences of child and adolescent to parent violence in the COVID-19 pandemic*[9]. Yn ôl yr adroddiad hwn, roedd ymarferwyr a rhieni'n poeni'n arw am y grŵp hwn o deuluoedd a allai fod yn gweld mwy o drais a chael anawsterau ychwanegol wrth geisio addasu wrth i gyfyngiadau fynd a dod. Roedd yr anawsterau'n cynnwys cyfnodau hirach yng nghwmni'r camdriniwr, newid i strwythur a threfn a diffyg mynediad at rwydweithiau cymorth ffurfiol ac anffurfiol.

Roedd y timau YOT yn ymwybodol iawn o'r problemau penodol i rieni a brodyr / chwiorydd gan wneud ymweliadau stepan drws / yn yr ardd i wirio diogelwch dioddefwyr a dioddefwyr posib. Yr ymateb mwyaf trylwyr a welsom oedd ar Ynys Wyth. Roedd rheolwyr wedi canfod fod hyn yn risg gynyddol dros y cyfnod clo. Mewn ymateb, penderfynwyd cynyddu capasiti'r gweithiwr magu plant i weithio gyda'r rhieni i dawelu sefyllfaoedd a rheoli ymddygiad ymosodol. Roedd y gweithiwr magu plant hefyd wedi cynnig ail-sefydlu cyswllt â'r rhieni lle daeth y cyswllt i ben yn ddiweddar, eto gyda dealltwriaeth o'r goblygiadau posib o fod dan gyfnod clo.

## Plant mewn gofal a leolir y tu allan i'w hardaloedd

Mewn dau o'r timau YOT i ni ymweld â nhw, roedd lleoli plant y tu allan i ardaloedd eu hawdurdod lleol yn rhan arferol o'u hymarfer. Mae gan rannau o Cumbria a West Mercia nifer fawr o gartrefi plant cofrestredig. Mae gan dîm Sir Amwythig West Mercia 72 o gartrefi plant yn eu hardal. Mae gan y tîm gysylltiadau da â darparwyr yn yr ardal a, lle bo'n bosib, yn dyrannu un gweithiwr YOT i bob cartref i helpu i feithrin perthnasoedd a gweithio ar-y-cyd. Roedd manteision hyn dros y cyfnod clo'n cynnwys staff cartrefi gofal yn gwneud peth gwaith ymddygiad troseddol a chynorthwyo ag asesiadau a chynllunio.

Cododd ein hasesiad o achosion lle'r oedd plant mewn gofal, ac wedi eu lleoli y tu allan i'w hardal, nifer o faterion cysylltiedig â Covid-19. Nid ydynt yn berthnasol i bob gwasanaeth drwy'r wlad ond gallent gael effaith fawr ar dimau YOT sy'n dod yn rhai 'oddi ffwrdd' lle gofynnir iddynt reoli neu gymryd gofal o blant ar ran yr YOT 'lleol'. Eglurir y broses o drosglwyddo achosion mewn canllawiau gan y YJB sef y *Protocol Cenedlaethol ar Gyfrifoldeb dros Achosion: Canllawiau Ymarfer i Dimau Troseddwyr Ifanc yng Nghymru 2018*[10]. Mewn amgylchiadau arferol, byddai'r plentyn yn cael ei weld wyneb yn wyneb, ond yn ystod y cyfyngiadau roedd y cyswllt yn rhithiol. Ni welwn fawr ddim mantais i'r plentyn o newid gweithiwr lle mae'r YOT lleol ac oddi ffwrdd yn cysylltu â'r plentyn o bell. Mae angen i dimau rheoli YOT edrych eto ar brosesau cymryd gofal ac ystyried yn ofalus a ddylai cyfrifoldeb am achos aros gyda'r YOT lleol ar ôl lleoli'r plentyn y tu allan i'w hardal leol, os gellir gwneud hynny o bell a hynny fyddai'r peth gorau er lles y plentyn.

## Profion Covid-19

---

[9] Rachel Condry, Caroline Miles, Toni Brunton-Douglas, ac Anuoluwapo Oladapo (Awst 2020). *Experiences of Child and Adolescent to Parent Violence in the COVID-19 Pandemic*.

[10] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2018). *Protocol Cenedlaethol ar Gyfrifoldeb dros Achosion: Canllawiau Ymarfer i Dimau Troseddwyr Ifanc yng Nghymru a Lloegr*.

Problem arall i'r grŵp hwn o blant yw profion Covid-19. Mae cynghorwyr gwyddonol y llywodraeth wedi dweud droeon bod gan y rhan fwyaf o blant risg isel o fynd yn ddifrifol wael gyda'r feirws. Mae gan nifer fach o blant gyda chyflyrau penodol risg uwch. Mae hynny'n cynnwys plant gyda nam ar eu himiwnedd. Daethom ar draws un achos o'r fath yn ein sampl.

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Roedd Ali'n 17 oed pan gafodd ei ryddhau o'r carchar, ychydig wythnosau ar ôl dechrau'r cyfnod clo. Aeth i fyw mewn llety cymorth. Pan gafodd ei ryddhau, cafodd lythyr yn ei hysbysu ei fod yn y categori cysgodi. Roedd wedi colli ei boten ludw ar ôl cael ei drywanu flwyddyn yn gynt, a effeithiodd ar ei imiwnedd. Ni wyddai'r YOT a'i weithiwr cymdeithasol ei fod wedi cael llythyr, er mae'n debyg ei fod wedi'i roi iddo gan dîm gofal iechyd y carchar. Dros ddau fis cyntaf y cyfnod clo ac yntau wedi'i ryddhau, cydymffurfiodd â'r canllawiau cysgodi. Roedd y trefniadau ar gyfer hyn wedi eu rhoi yng ngofal y darparwr llety cymorth. Ni wyddai'r gweithiwr cymdeithasol a'r YOT a oedd ymweliadau dyddiol y gweithiwr cymorth llety'n digwydd wyneb yn wyneb neu o'r tu ôl i ddrws neu ffenestr. Os oedd staff yn cael cyswllt uniongyrchol, nid oedd trefniadau profi ar ei gyfer ef na'r staff. Ychydig iawn o brofion i bobl mewn cartrefi gofal oedd yn digwydd ar y pryd. Cyn gynted ag y newidiodd y cyfyngiadau ac roedd pobl yn gallu teithio i wneud ymarfer corff, diflannodd Ali. Dylai'r cynllunio ar ei gyfer fod wedi ystyried ei anghenion penodol, gan gynnwys sut yr oedd yn cael ei feddyginiaeth a'i fwyd, ac a oedd angen cymorth ychwanegol arno i gadw mewn cysylltiad â'i deulu a'r byd allanol. Gwyddai'r YOT fod ganddo ffôn symudol ond nid oedd neb wedi holi a oedd gan y lleoliad Wi-fi neu a oedd angen i Ali ddefnyddio data ei ffôn symudol i gadw mewn cysylltiad â'i deulu a'r gweithiwr cymorth.

Mewn achos arall, roedd bachgen 14 oed wedi'i symud o Lundain i gartref gofal yn Sir Amwythig. Hyn oedd y penderfyniad iawn i'w warchod oherwydd ei risg llinellau cyffuriau sirol. Fe wnaeth sawl ymgais yn barhaus i redeg i ffwrdd, gan gynnwys ymosod ar staff. Pan gyrhaeddodd gyntaf byddai'n piso a phoeri at staff gan ddweud bod y feirws ganddo. Er mwyn rheoli'r risg bosib i staff a phlant eraill yn y cartref, treuliodd wythnosau wedi'i ynysu gyda nifer fach o staff. Roedd yn sefyllfa anodd ei rheoli oherwydd gallai ei ymddygiad gynyddu'r risg i staff o gael y feirws ac o ymosodiad. Oherwydd nad oedd trefniadau profi am y feirws, bu'n rhaid iddo dreulio pythefnos yn ynysu rhag ofn iddo ddatblygu symptomau Covid-19. Roedd wedi'i symud o'i gartref i ardal ddieithr ac wedi'i wahanu oddi wrth blant eraill, gan yn ei gwneud yn anoddach i'r cartref plant ei setlo gyda'r gwasanaeth a gwaethygu ei deimladau ynysig.

Yn y ddau achos roedd trefniant cymryd gofal wedi'i gytuno ond yr holl gyswllt gan yr YOT yn rhithiol. Ein barn ni oedd y gallai'r YOT lleol fod wedi defnyddio'r amser hwn i ddatblygu ymddiriedaeth a pherthynas â'r plant hyn yn lle gofyn i YOT gamu mewn.

Mae'r mater o gynnig prawf yn gymhleth, ond yn y ddwy sefyllfa hon gallai profion fod wedi rhoi peth tawelwch meddwl. Dylai asesiadau a chynlluniau YOT nawr gael eu drafftio gyda COVID-19 mewn golwg, gan gynnwys achosion lle dylid ystyried profi.

## Defnydd o dechnoleg a'r gagendor digidol

### Staff

Un o brif ganfyddiadau'r arolygiad hwn yw rôl hanfodol technoleg gwybodaeth a digidol, i staff ac i blant. Er y gallai'r rhan fwyaf o dimau YOT, yn dechnegol, gynnal cyfarfodydd ar-lein, pur anaml oedd hynny'n digwydd cyn y pandemig. Wrth iddi ddod yn amlwg fod y llywodraeth yn symud tuag at gyflwyno cyfyngiadau a'r wlad yn cael ei rhoi mewn cyfnod clo, gwelsom gynnydd sydyn iawn yn y defnydd o systemau cyfathrebu rhithiol fel Microsoft Teams, Skype a Zoom. Bu'n rhaid i staff ddysgu'n gyflym sut i ddefnyddio'r rhain gan ddod yn hyderus mewn cadeirio a chyfrannu at gyfarfodydd. Bu'r adrannau TG yn gweithio'n ddygn i ddarparu gliniaduron a chyfarpar arall i staff.

Roedd staff rhai timau YOT wedi cael cyfarwyddyd i fynd â chyfarpar fel codwyr cyfrifiaduron, sgriniau a chadeiriau adref gyda nhw.

Cafwyd rhai manteision pwysig i staff drwy weithio o bell. Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd aml-asiantaeth wedi gwella a daeth yn haws cysylltu â gweithwyr cymdeithasol y plant. Dywedodd llawer o'r staff y byddent yn hoffi cadw'r elfen waith hon. I staff mewn ardaloedd gwledig mawr, mae gweithio o bell wedi amser arbed sylweddol. Dywedodd un rheolwr yn Cumbria y gallai'r amser yn teithio o un rhan o'r sir i ran arall gymryd tair awr bob ffordd weithiau. I'r staff hyn mae defnyddio Teams wedi cael effaith gadarnhaol iawn.

Fodd bynnag nid oes gan bob tîm YOT seilwaith TG digonol, er enghraifft West Mercia. Cedwir system rheoli achosion y tîm hwn ar lwyfan cyfrifiadur yr heddlu sy'n wahanol i systemau awdurdod lleol oherwydd, yn rhannol, y lefelau diogelwch a'r trefniadau mynediad. Nid yw'r ddwy system hon bob amser yn gydnaws â systemau awdurdod lleol. O'r herwydd roedd staff YOT West Mercia o dan anfantais oherwydd nid oedd ganddynt fynediad at systemau gofal cymdeithasol y pedwar awdurdod lleol yn eu hardal (Caerwrangon, Sir Amwythig, Telford a Wrekin a Sir Henffordd).

Rhaid i staff YOT West Mercia hefyd ddefnyddio ffonau clyfar ar gyfer cyfarfodydd Skype a Teams, sy'n llawer llai effeithiol. Disgrifiodd un rheolwr sefyllfa lle'r oedd wedi mynychu cyfarfod Ecsbloetio Plant a Phlant ar Goll (MACE) rhithiol. Roedd dros 20 o bobl o wahanol sefydliadau'n bresennol yn y cyfarfod, gan ei gwneud yn anodd deall pwy oedd yn siarad neu'n cyfrannu. Oherwydd bod y cyfranogwyr eraill yn defnyddio Teams ar liniaduron, roeddent wedi dechrau rhannu dogfennau, gan gynnwys asesiadau. Ni allai'r rheolwr weld na chyrchu'r dogfennau hyn, a allai fod wedi bod yn hollbwysig i reolaeth y tîm YOT o'r plentyn.

Y broblem fwyaf cyffredin i staff oedd dim mynediad at beiriant argraffu oherwydd bod angen anfon taflenni gwaith, llythyrau a gwybodaeth allan at blant drwy'r post. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i blant heb e-bost ac i blant yn y carchar.

Mae staff YOT wedi bod yn arloesol yn cysylltu â phlant drwy ffonau clyfar a'r cyfryngau cymdeithasol. Yn ôl yr adborth gan blant, maen nhw wedi hoffi'r math hwn o gyswllt, yn enwedig ar ddechrau eu cysylltiad â'r YOT, gan ei weld fel ffordd dda o ddod i adnabod ac ymddiried yn eu gweithiwr. Roedd plant a staff yn glir, wrth i amser fynd yn ei flaen, bod arnynt eisiau cyfarfod a chael cyswllt uniongyrchol. Roedd cyswllt rhithiol yn ychwanegiad defnyddiol at reoli achosion meddent, ond ni ddylai ddisodli cyswllt uniongyrchol diogel.

Drwy gydol y cyfnod clo, cawsom fod y rhan fwyaf o asesiadau'n digwydd yn rhithiol; fodd bynnag dim ond darlun rhannol o sefyllfa'r plentyn yr oedd hyn yn ei roi. Roedd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant ar Ynys Wyth wedi rhannu a hyrwyddo defnyddio canllawiau'r Prif Rwydwaith Gweithwyr Cymdeithasol Plant a Theuluoedd (PCFSW)[11] wrth wneud ymweliadau cartref rhithiol. Yn ein barn ni, maen nhw'n rhoi cyngor da i staff.

## Plant a theuluoedd

Mae'r pandemig wedi amlygu problem y gagendor digidol yn llawer mwy. I rai sydd heb gyfarpar, signal cryf na'r arian i dalu am fynediad i'r we, mae'r pandemig wedi ehangu'r bwlch hwn. Er bod gan rai plant a theuluoedd fynediad at gyfrifiaduron a ffonau symudol addas a digonol, mae llawer nad oes ganddynt fynediad. Yn ein sampl roedd gan ychydig dros hanner (53%) y plant fynediad at dechnoleg drwy'r we. Dros y cyfnod clo, daeth mynediad i'r we'n gwbl angenrheidiol i'r rhan fwyaf o bobl.

---

[11] PCFSW (15 Ebrill 2020). *The PCFSW Best Practice Guide for Video Call/Contact and Virtual/Online Home Visit*. Diweddariad diwethaf: 17 Ebrill 2020. https://www.skillsforcare.org.uk/Documents/Learning-and-development/social-work/psw/PSW-best-practice-guide-for-video-call-and-virtual-home-visit.pdf

Nid oedd gan rai teuluoedd gyfrifiadur. Gwelsom enghreifftiau lle mai'r unig ddyfais yn y tŷ oedd ffôn clyfar, y bu'n rhaid ei rannu rhwng rhieni oedd yn ceisio gweithio, plant yn ceisio lawrlwytho ac ymchwilio gwaith ysgol, a staff YOT yn ceisio cadw mewn cysylltiad â phlant.

Roedd Essex yn fuan iawn wedi adnabod y trafferthion a achosir gan ddiffyg TG ac wedi prynu a dosbarthu dyfeisiau llechen i deuluoedd. Yn Southwark, penderfynwyd rhoi rhai o'r gliniaduron a brynwyd gyda chyllid y DfE ar gyfer plant bregus i blant y timau YOT.

Nid mynediad at gyfarpar oedd yr unig broblem. Ni allai rhai teuluoedd fforddio'r pecynnau band-eang, yn enwedig lle'r oedd y rhieni wedi colli eu gwaith neu ar ffyrlo. Mewn rhai ardaloedd roedd y signal Wi-fi'n wan a chyflymder y we'n wael. O ganlyniad cafwyd trafferthion yn lawrlwytho gwybodaeth, derbyn adnoddau addysgol a mynychu cyfarfodydd heb broblemau signal.

Cytunwn ag un Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant a ddywedodd y dylid yn y dyfodol rhoi'r un pwysigrwydd i asesu mynediad plant a theuluoedd at dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ag at unrhyw hanfodion eraill. Nid oedd yr offeryn asesu presennol, AssetPlus, wedi'i ddylunio i'r pwrpas hwn er i ni nodi fod llawer o staff yn gofyn i blant a'u gofalwyr am eu mynediad. Dylai timau YOT ystyried sut y mae eu prosesau asesu'n adnabod yr anghenion hyn er mwyn lleihau anfantais.

Mae'r llysoedd yn defnyddio cyfryngau cyfathrebu fel cyfiawnder drwy fideo, a rhith-lwyfannau drwy'r cwmwl, i brosesu achosion. Fodd bynnag roeddent yn araf i'w gweithredu. Mae plant gyda phroblemau cyfathrebu'n cael trafferth eu defnyddio ac nid oedd gan ganolfannau hyfforddi diogel (STC) a chartrefi plant diogel (SCH) fynediad at rith-lwyfannau drwy'r cwmwl. Lle'r oedd Skype ar gael mewn canolfannau STC a chartrefi SCH, fe'i defnyddiwyd i hwyluso cysylltu â theuluoedd. Roedd timau YOT wedi cael trafferth symud at gyfathrebu rhithiol gyda'r sefydliadau hyn.

Mae tri grŵp penodol o blant y mae'r gagendor digidol yn effeithio arnynt ac sydd angen mwy o ystyriaeth. Y rhain yw plant yn y carchar, plant sy'n derbyn gofal ac a leolir y tu allan i'w hardal leol, a phlant sy'n troseddu drwy'r we. Mae cysylltu â'r grŵp cyntaf, plant yn y carchar, wedi bod yn anodd oherwydd nad oes gan sefydliadau dechnoleg o bell. Mae datblygiadau diweddar, fel 'ymweliadau piws', yn rhy gyfyngedig ac mae plant yn parhau i fod heb fynediad at y byd allanol. Gall hyn waethygu teimladau ynysig plant a chyfyngu ar waith adsefydlu.

Mae gan sefydliadau YOT a chanolfannau STC fesurau diogelwch traddodiadol i atal defnyddio ffonau symud a dyfeisiau cysylltu i'r we anghyfreithlon. Roedd plant, teuluoedd a staff YOT yn rhwystredig ynghylch methu cael cyswllt rhithiol. Er y gallai plant gadw mewn cysylltiad dros y ffôn, roedd mynediad yn amrywio gan ddibynnu ar sut fath o sefydliad yr oeddent ynddo. Gallai plant mewn cartrefi SCH a chanolfannau STC gymryd galwadau gan aelodau awdurdodedig o'u teulu, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol. Gweithiodd y system hon yn iawn dros y cyfnod clo, ond drwy atal ymweliadau fel nad oedd y feirws yn lledu, daeth cyswllt arall mewn person yn anodd. Roedd plant gydag anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu'n enwedig dan anfantais. Gwnaed ymdrechion i baratoi plant ar gyfer gwrandawiadau llys, mechnïaeth a remand ond arhosodd y sefyllfa'n anfoddhaol.

Roedd yn waeth ar blant mewn sefydliadau YOI. Er i reolwyr achos dderbyn arian ychwanegol i'w wario ar alwadau ffôn, cawsant drafferthion mawr yn cadw mewn cysylltiad â'r plant hyn ac yn cysylltu â thimau gwaith achos yn y carchardai. Roedd yn cynnwys achosion lle'r oedd y plentyn ar fin cael ei ryddhau a lle dylai cynllunio adsefydlu fod wedi cael blaenoriaeth.

Yr ail grŵp o blant yw plant mewn gofal gan yr awdurdod lleol ac a leolir y tu allan i'w hardaloedd lleol. Ychydig iawn o'r asesiadau a'r cynlluniau i'r plant hyn oedd yn cynnwys ystyried eu mynediad at dechnoleg.

Ac yn drydydd y mae'r grŵp bach o blant sy'n troseddu drwy'r we, gan gynnwys troseddau rhyw. Roedd rheoli'r plant hyn wedi creu trafferthion mawr i baneli rheoli risg y timau YOT. Mewn un enghraifft, roedd bachgen 15 oed ag euogfarn am drosedd rhyw wedi hudo dioddefwr drwy dwyll dros y we. Roedd hefyd yn dreisgar tuag at ei fam, yr oedd yn byw gyda hi. Cyn y cyfnod clo, roedd y mesurau rheoli risg yn cynnwys ei bresenoldeb yn yr ysgol, lle'r oedd ei ddefnydd o'r we a'i

ymddygiad yn cael eu monitro'n fanwl. Roedd ganddo fentor oedd yn ei weld bob dydd i'w gael i gyfranogi mewn gweithgareddau priodol i ffwrdd o'r we. Ar ôl dechrau'r cyfnod clo, roedd y cyfrifoldeb am reoli risg wedi'i roi'n bennaf i'w fam. Treuliodd fwy a mwy o amser ar y we, ac er bod ei fam wedi ceisio goruchwylio hyn, roedd bron yn amhosib iddi ei fonitro drwy'r amser. Gwaethygodd ei drais tuag ati, ynghyd ag elfennau o reoli drwy orfodaeth. Roedd y mentor a'r gweithiwr YOT yn ymweld yn ddyddiol ond oherwydd y cyfyngiadau ni allent fynd i'r tŷ. Wrth i'w drais tuag at ei fam waethygu, rhoddwyd cyngor iddi ar sut i gadw ei hun yn ddiogel. Trafodwyd ei achos ym mhob fforwm rheoli risg perthnasol, gan gynnwys MAPPA. Fodd bynnag, ychydig iawn o opsiynau i reoli ei ymddygiad oedd gan y gwasanaethau.

## Casgliad a goblygiadau

Mae'r arolygiad yn amlygu'r gwaith anweledig, ond pwysig, a wneir gan y timau YOT. Cyflwynodd COVID-19 newidiadau sylweddol i sut y mae partneriaethau YOT yn darparu gwasanaethau. Maen nhw wedi ymateb yn dda i'r heriau a bellach yn ystyried y goblygiadau hirdymor. Gweithiodd y gwasanaethau'n hyblyg â phartneriaid i barhau gyda chymaint o wasanaethau cymorth â phosib.

Mewn rhai achosion, mae anghenion plant a'r risgiau i blant wedi dwysáu. Mae'r risg o niwed i eraill hefyd wedi newid dros y cyfnod clo, gan leihau yn achos rhai plant ond gwaethygu yn achos eraill, yn enwedig lle'r oedd plant a phobl ifanc yn dreisgar tuag at eu rhieni. Bydd yn cymryd amser i'r holl blant ddod i delerau ag effeithiau Covid-19, ac i lawer o blant yn llwythi achosion y timau YOT, bydd yn brofiad niweidiol ychwanegol ar ben popeth arall. Bydd y sgiliau a'r gofal a ddangosir gan staff yn allweddol i adferiad y plant hyn.

Mae gweithio hyblyg wedi cynyddu oherwydd COVID-19 gyda gweithio o'r cartref yn fanteisiol i rai, ond nid yw hyn yn addas i bob agwedd ar waith y timau YOT. Dysgwyd gwersi pwysig y bydd angen eu hystyried yn ddi-oed. Maen nhw'n cynnwys y llwyth gwaith trymach yn sgîl yr ôl-waith achosion sy'n dechrau dod drwy'r llysoedd o'r cyfnod cloi, y problemau a'r niwed clir iawn a achosir gan y gagendor digidol, ac ymateb cenedlaethol ar sail tystiolaeth i drais gan blant a phobl ifanc tuag at eu rhieni. Gwelsom bartneriaethau YOT eisoes yn symud at adferiad. Mae'n bwysig iddynt gymryd hoe fach a dathlu eu llwyddiannau wrth iddynt fynd ati i atgyfnerthu'r gwersi a ddysgwyd o'u gwaith dros y pandemig.

## Cyfeiriadau dogfennol


Gwasanaeth Erlyn y Goron (2020). *Data rhagarweiniol ar ôl-waith llysoedd ieuenctid*.

DfE (2020). *Data ar ddyfeisiau a 'rawtwyr' diwifr 4G* ar 27 Awst. [Ar-lein] Ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/912888/Devices_and_4G_wireless_routers_progress_data_as_of_27_August_2020.pdf. (Wedi'i gyrchu 24/9/2020)

Arolygiaeth Carchardai EM (2020). Tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder a gasglwyd drwy ymweliadau craffu byr â sefydliadau YOI. Mae ymweliadau craffu byr yn fath newydd o ymweliad gan Arolygiaeth Carchardai EM lle ymwelir â thri sefydliad tebyg. Nid adrodd ar sut y mae sefydliad yn cwrdd â disgwyliadau'r Arolygiaeth Carchardai yw nod yr ymweliad, ond rhoi ciplun o sut y mae'n ymateb i bandemig COVID-19 a rhannu unrhyw ymarfer da a welir yno. Ar gael ar wefan Arolygiaeth Carchardai EM.

Pennaeth y Gwasanaeth Carcharu Ieuenctid (Awst 2020). Gwybodaeth am y boblogaeth ieuenctid dan glo'r diwrnod hwnnw. Mae'r niferoedd hyn yn gallu amrywio.

PCFSW (15 Ebrill 2020). *The PCFSW Best Practice Guide for Video Call/Contact and Virtual/Online Home Visit*. Diweddarwyd ddiwethaf: 17 Ebrill 2020. https://www.skillsforcare.org.uk/Documents/Learning-and-development/social-work/psw/PSW-best-practice-guide-for-video-call-and-virtual-home-visit.pdf.

Rachel Condry, Caroline Miles, Toni Brunton-Douglas, ac Anuoluwapo Oladapo (Awst 2020). *Experiences of Child and Adolescent to Parent Violence in the COVID-19 Pandemic*.

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2018) *Protocol Cenedlaethol ar Gyfrifoldeb dros Achosion: Canllawiau Ymarfer i Dimau Troseddwyr Ifanc yng Nghymru a Lloegr*

Hỳb Adnoddau Cyfiawnder Ieuenctid (2020) *Top tips for working alternatively.* https://yjresourcehub.uk/covid-19-resources-for-youth-justice/item/683-top-tips-for-working-alternatively-essex-yos-april-2020.html and *Online sources for professionals, parents/carers and children*. https://yjresourcehub.uk/covid-19-resources-for-youth-justice/item/682-online-safety-resources-for-professionals-parents-carers-and-children-essex-yos-april-2020.html.

YJB (2020). Data Carcharu Ieuenctid: Gorffennaf 2020. [Ar-lein] Ar gael yn https://www.gov.uk/government/statistics/youth-custody-data.

## Atodiad 1: Methodoleg

Cafodd yr arolygiad hwn ei wneud yn gyfangwbl o bell. Cyrchwyd cofnodion achos a staff saith o dimau troseddwyr ifanc: Cumbria, Essex, Ynys Wyth, Sir Fynwy a Thorfaen, Newcastle, Southwark a West Mercia a chyfweld staff a rhanddeiliaid ym mhob un trwy gyswllt fideo. Mae’r timau o wahanol faint ac yn cynrychioli ardaloedd gwledig a threfol. Fe wnaethom hefyd ddewis gwasanaethau lle teimlwyd fod ymarfer penodol y gallai eraill ddysgu ohono.

### Tystiolaeth a gasglwyd

### Archwiliad a dadansoddiad o gynlluniau parhad busnes y timau YOT

**Asesiadau achos:** edrychodd yr arolygiad ar 10 achos o bob un o’r saith gwasanaeth – yn ddedfrydau llys a dedfrydau allan-o-lys. Roedd ein ffocws ar asesu, cynllunio a darparu ymyriadau a hefyd ar adolygu’r ymgysylltiad â phlant, risg o niwed, a diogelwch a lles plant. Yn unol ag amseriad y sampl achosion, edrychodd yr arolygiad ar achosion a ddaeth i’r timau YOT cyn y cyfnod clo ar 23 Mawrth 2020 ac a barhaodd ar ôl hynny, a hefyd ar sampl fach o achosion a ddechreuodd ar ôl dechrau’r cyfnod clo.

**Sampl:** targedwyd achosion oedd yn destun gorchmynion llys, gan gynnwys carcharu, ac achosion gyda dedfrydau allan-o-lys. Bwriad y rhain yw ymyrryd yn gynnar i gynorthwyo’r plentyn i ymatal rhag troseddu ac osgoi ‘troseddoli’ plant yn ddiangen. Fe wnaethom yn fwriadol ddewis achosion gyda risg o niwed i eraill lle’r oedd angen i’r timau YOT a phartneriaid eu rheoli. Mae proffil plant sy’n dod i sylw’r gwasanaethau troseddwyr ifanc yn aml yn cynnwys plant sydd angen eu diogelu ac roedd hyn hefyd yn amlwg yn ein sampl. Mae’r sampl yn amrywiol oherwydd ein nod oedd cofnodi ystod eang o’r gwaith a wnaed dros y cyfnod clo.

- O’r 70 achos a arolygwyd: dechreuodd 49 cyn gweithredu’r cynllun parhad busnes, a dechreuodd 20 wedyn; roedd 1 yn achos remand
- Roedd 34 yn ddedfrydau allan-o-lys; 35 yn achosion ôl-lys; 10 yn achosion carcharu (1 remand a 9 dedfryd o garchar); 50 yn fechgyn ac 20 yn ferched (71%/29%); 50 yn wyn ac 20 yn ddu, Asiaidd a lleiafrifol ethnig a grwpiau eraill (71%/29%)
- Roedd gan 43% o’r plant anabledd
- Roedd tri o’r plant yn cyflwyno risg uchel iawn o achosi niwed difrifol i eraill; roedd 29 yn risg uchel; 24 yn risg ganolig; 14 yn risg isel
- Roedd gan 74% o’r plant broblemau diogelu a / neu les lle’r oedd angen ymateb aml-asiantaeth
- Roedd 53% o’r achosion yn droseddau treisgar

**Cyfarfodydd â staff allweddol** drwy Microsoft Teams neu Skype. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd â rheolwyr YOT, timau rheoli, staff a rheolwyr partneriaethau, cadeiryddion byrddau rheoli a chynrychiolwyr o sefydliad gweinyddu’r YOT. Roedd cyfarfodydd â staff gweithredol yn cynnwys, ymhlith eraill, rheolwyr achos, oedolion priodol, gwirfoddolwyr gorchmynion cyfeirio, a staff dedfrydau allan-o-lys.

**Arolwg staff:** cyfres bwrpasol o gwestiynau i’r holl staff yn y saith gwasanaeth. Cafodd 220 o arolygon eu dychwelyd. Rhoddir crynodeb o’r prif ganfyddiadau yn Atodiad 3.

**Ymgynghori** drwy decstio / messenger a thros y ffôn gyda phlant, rhieni, gofalwyr a rhai o weithwyr cymdeithasol y plant.

**Cyfarfodydd a gwybodaeth gan y sector troseddwyr ifanc**, gan gynnwys y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, Cymdeithas Genedlaethol yr Oedolion Priodol, Cymdeithas Rheolwyr YOT Cymru, y Gwasanaeth Carcharu Ieuenctid, ac Arolygiaeth Carchardai EM.

## Atodiad 2: Geirfa

| | |
|---|---|
| ACE | Profiadau plentyndod niweidiol: digwyddiadau trawmatig posib sy’n gallu cael effeithiau negyddol a pharhaol ar iechyd a lles |
| AssetPlus | Offeryn fframwaith asesu a chynllunio wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i weithio gyda phlant sydd wedi troseddu neu mewn perygl o droseddu, sy'n adlewyrchu'r ymchwil a'r ddealltwriaeth bresennol o'r hyn sy'n gweithio gyda phlant |
| CAMHS | Gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc: Gwasanaeth gan y GIG i blant sy’n cael trafferthion iechyd meddwl |
| CCE | Ecsbloetio plant yn droseddol: pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cael ei annog, gorfodi neu ddenu’n ddichellgar i fod yn rhan o droseddu er mwyn cael rhywbeth yn ôl, fel anrhegion, cyffuriau, alcohol neu sylw emosiynol |
| CIC | Plentyn mewn gofal: gelwir plentyn sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol am dros 24 awr yn blentyn mewn gofal neu’n blentyn sy’n derbyn gofal (LAC / CLA) |
| CIN | Plentyn mewn angen: y statws a roddir i blant sy’n cael eu hystyried i fod angen cymorth gan yr awdurdod lleol i hybu neu ddiogelu eu lles ond nad ydynt yn cwrdd â’r meini prawf ar gyfer amddiffyn plant |
| Llinellau sirol | Symud cyffuriau’n anghyfreithlon o gwmpas y DU, yn aml drwy ecsbloetio plant neu oedolion bregus i gadw a symud cyffuriau ymlaen |
| Dedfrydau llys | Dedfryd a roddir gan y llys. Mae enghreifftiau o ddedfrydau gan y llys yn cynnwys gorchymyn cyfeirio, gorchymyn adsefydlu ieuenctid a gorchymyn cadw a hyfforddi. |
| CP | Amddiffyn plant: mae plant a aseswyd gan yr awdurdod lleol i fod â risg o niwed difrifol yn derbyn cymorth drwy broses ffurfiol, sy’n cynnwys cynllun amddiffyn plentyn aml-asiantaeth, er mwyn rheoli a lleihau’r risg i’w lles a’u diogelwch |
| CR | Gorchymyn cymunedol: a ddefnyddir ar gyfer troseddau lefel isel, tro cyntaf yn aml. Mae’n cynnwys cytundeb anffurfiol, ynghyd â barn y dioddefwr, ar sut ddylai’r trosedd gael ei benderfynu. Term cyffredinol yw gorchymyn cymunedol; yn ymarferol defnyddir nifer o wahanol dermau lleol i olygu’r un peth. |
| CSC | Gwasanaethau gofal cymdeithasol plant: yn cael eu darparu ym mhob awdurdod lleol / ardal cyngor sir i ddiogelu a chynorthwyo lles a diogelwch plant gydag anghenion mwy dwys a / neu lle mae risg o niwed oddi wrth eu hunain neu bobl eraill |

| | |
|---|---|
| CSE | Ecsbloetio plant yn rhywiol: pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cael ei annog, gorfodi neu ddenu'n ddichellgar i fod yn rhan o weithgareddau rhyw er mwyn cael rhywbeth yn ôl, fel anrhegion, cyffuriau, alcohol neu sylw emosiynol |
| Ymatal (rhag troseddu) | Peidio â throseddu neu ymddwyn yn wrthgymdeithasol fel arall |
| DTO | Gorchymyn cadw a hyfforddi: dedfryd o garchar i blentyn. Y llys sy'n penderfynu hyd y ddedfryd a bydd y plentyn naill ai'n mynd i gartref plant diogel, canolfan hyfforddi ddiogel neu sefydliad troseddwyr ifanc. Mae gan orchymyn cadw a hyfforddi elfennau o garcharu a chymunedol, pryd fydd y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu rhyddhau ar Hysbysiad Goruchwylio |
| EH | Cymorth cynnar: cymorth wedi'i dargedu a roddir drwy'r awdurdod lleol i helpu plant (a'u teuluoedd) i roi sylw i broblemau fel nad ydynt yn dod yn blentyn 'mewn perygl' |
| EHCP | Cynllun addysg, iechyd a gofal: cynllun yn disgrifio anghenion addysg, iechyd a gofal cymdeithasol plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig a / neu anabledd |
| ETE | Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: gwasanaeth i wella dysgu a rhagolygon cyflogaeth plentyn yn y dyfodol |
| Troseddwr tro cyntaf | Plentyn sydd, am y tro cyntaf, yn derbyn canlyniad cyfiawnder troseddol statudol (rhybuddiad ieuenctid, rhybuddiad ieuenctid amodol, neu euogfarn) |
| Drws ffrynt | Y pwynt cyswllt mewn awdurdod lleol i rai sy'n poeni am les plentyn (wele MASH isod). Mae'n ymateb i ymholiadau diogelu a phlant sy'n cael eu cyfeirio, gan benderfynu a ddylid a sut i ymchwilio ac ymyrryd i gadw plentyn yn ddiogel |
| FTE | Cyfwerth ag amser llawn |
| HMIP | Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi |
| HSB | Ymddygiad rhywiol niweidiol: ymddygiad rhywiol gan blant sy'n amhriodol i'w datblygiad ac sy'n niweidiol i blentyn arall neu oedolyn a / neu i'r plant eu hunain |
| ISS | Goruchwylio ac arolygu dwys: opsiwn llym arall yn lle carcharu i blant a throseddwyr ifanc sy'n troseddu'n barhaus a rheolaidd ac yn cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol. |
| TG | Technoleg gwybodaeth: y defnydd o systemau, yn enwedig cyfrifiaduron a chyfarpar telathrebu, i gadw, adalw a rhannu gwybodaeth |
| MACE | Ecsbloetio plant aml-asiantaeth: y fframwaith sy'n disgrifio'r trefniadau ar gyfer ymateb i blant sy'n agored i gael eu hecsbloetio, gan gynnwys ecsbloetio plant yn rhywiol, plant ar goll o'u cartrefi, ecsbloetio troseddol, caethwasiaeth fodern a masnachu mewn plant |

| | |
|---|---|
| MAPPA | Trefniadau amddiffyn y cyhoedd amlasiantaethol: lle mae’r gwasanaethau prawf, heddlu, carchardai ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda’i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy’n cyflwyno risg o niwed uchaf i eraill. Lefel 1 yw rheolaeth gan asiantaeth unigol, lle gellir rheoli’r risgiau a gyflwynir gan y troseddwr gan yr asiantaeth sy’n gyfrifol am oruchwylio neu reoli achos y troseddwr. Ar gyfer lefelau 2 a 3, mae angen rheolaeth weithredol aml-asiantaeth |
| MARAC | Cynhadledd asesu risg aml-asiantaeth: wedi’i sefydlu ym mhob ardal heddlu i ystyried anghenion diogelwch dioddefwyr cam-drin domestig lle aseswyd bod y risg iddynt yn ddifrifol. Fel arfer ar ôl un digwyddiad, er y gellir cyfeirio’r dioddefwr am drafodaeth ar ôl digwyddiad newydd |
| MASH | Hỳb diogelu aml-asiantaeth: sef y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau neu bryderon diogelu newydd. Fel arfer maen nhw’n cynnwys cynrychiolwyr o’r awdurdod lleol (gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion a phlant), yr heddlu, prawf, iechyd a chyrff eraill |
| NEET | Heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| OOCD | Dedfryd allan-o-lys: dedfryd ar gyfer trosedd lefel isel fel arfer, lle na fyddai erlyn o fudd i'r cyhoedd, drwy orchymyn cymunedol, rhybuddiad ieuenctid neu rybuddiad ieuenctid amodol |
| Wedi'i bersonoli | Dull lle mae'r gwasanaeth yn cael ei deilwrio i ateb anghenion unigolion gan roi gymaint o ddewis a rheolaeth â phosib i bobl dros y cymorth y maen nhw'n ei dderbyn. Defnyddiwn y term hwn i gynnwys ffactorau amrywiaeth |
| PRU | Uned cyfeirio disgyblion: yn darparu addysg (a lefel uwch o gymorth) i blant nad ydynt yn gallu mynychu ysgol prif ffrwd |
| Gorchymyn cyfeirio | Dedfryd gymunedol a roddir gan y llys troseddol, wedi’i hategu gan egwyddorion adferiad, gwneud iawn ac ail-integreiddio. Yn cael ei rhoi pan fydd plentyn yn pledio’n euog i drosedd sy’n cario dedfryd o garchar. |
| RoH | Risg o niwed – wele RoSH isod |
| RoSH | Risg o Niwed Difrifol: y term a ddefnyddir yn AssetPlus. Mae pob achos yn cael ei ddosbarthu fel un gyda risg isel, canolig, uchel neu uchel iawn o achosi niwed difrifol i eraill. Mae Gwasanaeth Prawf EM yn defnyddio'r term hwn wrth gyfeirio at y system ddosbarthu ond yn defnyddio'r term mwy cyffredinol 'risg o niwed' wrth gyfeirio at y dadansoddiad a ddylai gael ei wneud i benderfynu lefel y dosbarthiad. Mae hyn yn helpu i wahaniaethu rhwng pa mor debygol fydd rhywbeth o ddigwydd, ac effaith / difrifoldeb y digwyddiad. Mae’r term ‘risg o niwed difrifol’ yn |

| | |
|---|---|
| | ymgorffori effaith 'ddifrifol' yn unig, tra bod 'risg o niwed' yn golygu y gellir rhoi'r sylw angenrheidiol i blant gydag ymddygiad sy'n debygol o gael llai o effaith / sy'n llai niweidiol. |
| Diogelu | Mae diogelu'n derm ehangach nag amddiffyn plant ac yn cynnwys hybu iechyd a datblygiad y plentyn a sicrhau bod eu hanghenion lles cyffredinol yn cael eu cwrdd |
| Diogelwch a lles | Mae AssetPlus wedi disodli'r broses o asesu statws bregus drwy ddull holistig o ystyried pryderon am ddiogelwch a lles plentyn. Fe'i diffinnir fel '...canlyniadau lle gallai ymddygiad neu amgylchiadau personol neu weithredoedd y person ifanc neu ddiffyg gweithredu gan eraill amharu ar ddiogelwch a lles y person ifanc' (Canllawiau AssetPlus, 2016) |
| SCH | Cartref plant diogel: uned fach awdurdod lleol i roi cartref diogel a chefnogol i blant rhwng 10 a 14 oed sy'n cael eu cadw yno am resymau lles ar orchymyn y llys troseddol |
| SLCN | Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, a ehangir weithiau i gynnwys anghenion niwro-anabledd |
| STC | Canolfan hyfforddi ddiogel: llety sy'n darparu cartref byw rheoledig i blant rhwng 10 a 18 oed sy'n cael eu cadw ar remand neu a gafodd ddedfryd dan glo gan y llys troseddol |
| Ymarfer deall trawma | Dull o weithio gyda phlant sy'n cydnabod effaith trawma a phrofiadau eu bywyd (wele ACE uchod) gan ddarparu ymateb arbenigol, wedi'i deilwrio sy'n adeiladu ar eu cryfderau ac yn osgoi atgyfnerthu'r trawma |
| Trawma empathetig | Y term a ddefnyddir i egluro'r effaith ar staff pan fyddant yn ymgysylltu'n empathetig â goroeswyr digwyddiadau trawmatig |
| YJB | Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid: corff llywodraeth sy'n gyfrifol am fonitro a chynghori gweinidogion ar ba mor effeithiol yw'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae'r YJB yn darparu grantiau a chanllawiau i dimau troseddwyr ifanc |
| YOI | Sefydliad troseddwyr ifanc: lleoliad carcharu i unigolion rhwng 15 a 21 oed sy'n cael eu cadw ar remand neu eu dedfrydu i garchar gan y llys troseddol |
| YOT/YOS | Defnyddir y term Tîm Troseddwyr Ifanc yn Neddf Trosedd ac Anrhefn 1998 i ddisgrifio tîm aml-asiantaeth sy'n ceisio lleihau troseddu gan bobl ifanc. Gelwir timau YOT wrth nifer o wahanol enwau fel y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid (YJS), y gwasanaeth troseddwyr ifanc (YOS) ac enwau cyffredinol eraill i ddisgrifio eu rôl leol ehangach gyda darparu gwasanaethau i blant |
| Bwrdd Rheoli'r YOT/YOS | Mae Bwrdd Rheoli'r YOT yn dal yr YOT i gyfrif i sicrhau ei fod yn cyflawni'r prif nod o atal troseddu gan blant. Fe'i gelwir weithiau'n enw gwahanol, er enghraifft y Bwrdd Partneriaeth Cyfiawnder Ieuenctid (YJPB) |

## Atodiad 3: Arolwg staff – y prif negeseuon

Cynhaliwyd arolwg staff yn gofyn cyfres bwrpasol o gwestiynau i'r holl staff yn y saith gwasanaeth a arolygwyd gennym. Derbyniwyd 220 arolwg yn ôl; cafwyd ymateb gan bob YOT fel a ganlyn: rheolwyr achos (40%), rheolwyr (13%), gweithwyr cymorth / gweinyddol (10%), staff ar secondiad (8%), gweithwyr dioddefwyr a chyfiawnder adferol (7%), a gweithwyr eraill (22%). O'r rhai a ddewisodd ddatgelu hynny, roedd gan 50 o bobl gyflyrau iechyd sylfaenol, 40% oedd y prif ofalwr am blant ifanc, a 5% oedd y prif ofalwr am oedolyn.
Dyma grynodeb o'r canfyddiadau:

A ydych yn ddigon ymwybodol o fodel darparu gwasanaeth COVID-19 eich gwasanaeth?

| Hollol ymwybodol | Ymwybodol ar y cyfan | Rhannol ymwybodol | Ddim yn ymwybodol iawn | Ddim yn ymwybodol o gwbl |
|---|---|---|---|---|
| 71% | 22% | 6% | 1% | 0% |

A gyfathrebwyd yn ddigonol â chi am sut i ddarparu gwasanaethau troseddwyr ifanc i blant dros y cyfnod clo ac yn y cyfnod ar ôl y cyfnod clo?

| Cyfathrebu rhagorol | Cyfathrebu da | Cyfathrebu digonol | Cyfathrebu gwael |
|---|---|---|---|
| 53% | 35% | 9% | 3% |

A ydych yn gyffyrddus â'ch llwyth achosion neu lwyth gwaith?

| Ydw | Nac ydw |
|---|---|
| 97% | 3% |

Sut y byddech yn sgorio ansawdd y cymorth a gawsoch gan eich sefydliad dros gyfnod Covid-19?

| Cymorth rhagorol | Cymorth da | Cymorth digonol | Cymorth annigonol |
|---|---|---|---|
| 60% | 26% | 11% | 3% |

A oedd yn ofynnol i chi ddefnyddio technoleg newydd dros gyfnod Covid-19?

| Oedd | Nag oedd |
|---|---|
| 74% | 27% |

A oedd cael gafael ar adnoddau'n haws neu'n waeth na chyn y cyfyngiadau Covid-19?

| Dim newid | Yn well | Yn waeth |
|---|---|---|
| 52% | 17% | 31% |

Dros gyfnod Covid-19, a oeddech yn gallu cael gafael ar wasanaethau, ymyriadau ac adnoddau partneriaeth digonol i weithio gyda'r plant yn eich llwyth achosion?

| Oeddwn | Nag oeddwn |
|---|---|
| 87% | 13% |